

ECO'R WYDDFA

RHIF 351 NADOLIG/IONAWR 2008 PRIS 40c

Yn y rhifyn hwn mae cyfarchion Nadolig
Bethel, Caeathro, Llanrug, Waunfawr,
a'r ardal gyfagos.

Cofiwch gefnogi'r hysbysebwyd yn 2008



*Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd
Dda i holl ddarlennwyr yr Eco*

Rhoi Ystyr y Nadolig ar Waith

DERBYNIODD elusen sy'n rhoi llety i rieni plant sy'n cael triniaeth yn Ysbyty Alder Hey anrheg Nadolig gwerth chweil, diolch i garedigrwydd trigolion ardal yr Eco.

Cynhaliwyd noson gymdeithasol yn Y Caban, Brynrefail, er mwyn casglu arian i MacDonald House 'nôl yn mis Medi, ond cadwyd y coffrau ar agor am nifer o wythnosau gan bod cymaint o bobol nad oedd yn medru mynd i'r noson eisiau cyfrannu.

Ychydig wythnosau cyn y Nadolig aethpwyd â'r arian - £1,918 - a'i gyflwyno i'r elusen yn Lerpwl. Lle aros sy'n cael ei redeg ar gyfer teuluoedd plant sy'n cael triniaeth yn ysbyty Alder Hey yw 'MacHouse'. Mae nifer fawr o deuluoedd gogledd Cymru yn cael budd o'r lle, rhai yn byw yno am fisoddd ar y tro yn rhad ac am ddim. Mae'n galluogi rhieni i fedru bod ond ychydig funudau i ffwrdd oddi wrth eu plant yn ystod y nos, ac yn tynnu'r straen o orfod chwilio am westy mewn dinas ddieithr ar fyr rybydd pan bod digon i boeni amdano yn barod.

Trefnwyd y noson gan deulu Buddug



Pennant Jones, Erw'r Nant, Brynrefail, a gafodd lawdriniaeth ar ei chalon yn Alder Hey ym mis Chwefror 2007. Mae Buddug bellach yn flwydd a hanner ac yn mynd o nerth i nerth. Dywedodd ei mam, Gwenan:

'Diolch o galon i bob un wnaeth gefnogi'r noson. Mae pawb wedi bod mor garedig.'

Y Tri Gŵr Doeth

Pwy sydd yn dyfod dros ael y bryn
Ar gefn eu camelod i lawr drwy'r glyn,
Ac ôl eu traed yn yr eira gwyn?
Y tri gŵr doeth.

Pwy sydd yn dod i'w addoli Ef,
Gan ddilyn seren ddisgleiria'r Nef,
O'r dwyrain draw i Fethlehem dref?
Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n penlinio wrth wely o wair
Yn y beudy llwm heb sibwrdd gair
Gan roddi anrhegion i Faban Mair?
Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n dychwelyd i fyny'r glyn
Ar gefn eu camelod dros ael a bryn,
Ac ôl eu traed yn yr eira gwyn?
Y tri gŵr doeth.

SELWYN GRIFFITH

Grŵp Achub Mynydd



TROSLWYDDWYD £1,300 i Grŵp Achub Mynydd Llanberis gan aelodau Clwtwneuthurwyr Peris yn ddiweddar. Grŵp o ferched lleol yw'r clytwneuthurwyr, sy'n cwrdd mewn dosbarth wythnosol yn Nant Peris, dan nawdd Coleg Menai. Mae'r merched, yn eu hamser sbar, yn creu crefftwaith er budd elusennau lleol. Y flwyddyn hon trefnwyd raffl ganddynt er budd Grŵp Achub Mynydd Llanberis.

Tynnwyd y raffl gan Ian Henderson, aelod o'r Grŵp achub yn safle'r Clytweithwyr yn Nant Peris.

Yn dilyn sgwrs ganddo ar weithgareddau'r Grŵp Achub, aeth Ian Henderson â'r merched o amgylch safle'r grŵp yn Nant Peris.

ECO'R WYDDFA

RHIF 351

DOLIG/IONAWR 2008

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost
storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifion@eifionroberts9.wanadoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, 21 IONAWR

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, 31 IONAWR

Dyddiad Gosod

SUL 27 IONAWR am 5.30

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror	21 Ionawr	31 Ionawr	Waunfawr	Nan Roberts	650 570
Mawrth	18 Chwefror	28 Chwefror	Llanrug	Dafydd Whiteside	673 515

7 Dolydd Terrace
Betws-y-Coed
Conwy

Annwyl Olygydd

Tybed a oes rhai o ddarllenwyr
Eco'r Wyddfa wedi etifeddu
llyfryn tebyg i'r hwn a
gyflwynwyd i fy nhad, Thomas D.
Jones, ar ei alwad i'r Rhyfel Byd
Cyntaf yn 1915, gan swyddogion
Capel Ebenezer Deiniolien?

Teitl y llyfr yw *Y Bachgen*, a'r
awdur yw y Parchedig David
Williams, Cwm y Glo. Fe'i
cyhoeddwyd yng Nghaernarfon
gan Gwmni'r Cyhoeddwyrr
Cymreig, Swyddfa Cymro. Mae'r
Parchedig Albert Morgan wedi
ysgrifennu:

*Anrheg i Thomas D. Jones gan
Eglwys Ebenezer Arfon, fel arwydd
fechan o serch ac o ddymuniadau da
tuag ato, ar ei waith yn cyflwyno ei
hun i wasanaethu ei wlad. Ebrill
29ain 1915.*

Oddi mewn i'r clawr mae
Deiniolfryn, William John
Hughes, wedi ysgrifennu:

*Gelyn ein henaid, gelyn ein gwlad,
Gyfaill, orchfygwn os awn i'r gâd,
Gyda thaer weddi ar edyn ffydd -
Hono a'r Kaiser enilla'r dydd
Rhagddi y ffoa llu uffern oll,
Minna a gadwa rhag mynd ar goll.*

Buaswn yn hynod falch o gael
gwybod a yw'r bennill uchod
wedi cael ei hysgrifennu yn
arbennig i Thmas D. Jones. A
gyfansoddodd Deiniolfryn
bennill wahanol i bob llanc ifanc
o Gapel Ebenezer oedd yn gadael
am y fyddin? Buasai'r wybodaeth
hyn yn dod i'r amlwg os oes gan
unrhyw un arall gopi o'r llyfryn -
yr un bennill, neu un wahanol?

Hefyd mae gennyf gopi o lyfr y
*Canmlwyddiant Eglwys Ebenezer
yn 1923*, eto wedi ei ysgrifennu
gan Deiniolfryn.

Roedd fy nhaid yn flaenor yn
Ebenezer ar ei ddychweliad o'r
fyddin.

Llawer diolch am eich
cydweithrediad
Yn gywir

KELVIN JONES



Annwyl Ddarllenwr

Sut fyddwch chi yn dathlu Dydd
Gŵyl Dewi 2008? Yn gwyllo *Cân
i Gymru* ar y bocs neu'n ciniawa
gyda'r teulu?

Byddwn ni yn yr Academi yn
treulio penwythnos 29 Chwefor
- 2 Mawrth 2008 ym Melffast, yn
cynnig llwncdestun i'n
nawddsant yng nghwmni
llenorion amlwg o Gymru a
Gogledd Iwerddon.

Beth yw'r berthynas rhwng
ein dwy wlad? A oes rôl i
wleidyddiaeth mewn llenydd-
iaeth yn y byd sydd ohoni? Am
atebion i'r cwestiynau hyn a'r
cyfle i holi llawer mwy,
ymunwch â ni ac archebwch eich
lle yn awr.

Am ragor o wybodaeth
cysylltwch â'r Academi: 029
2047 2266 neu post@acaemi.org
Yn gywir

PETER FINCH

Academi: Prif Weithredwr

Bryn
24 Dowthorpe Hill
Earls Barton
Northampton

Annwyl Gyfeillion

Rhoddd fechan i *Eco'r Wyddfa* i
ddymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
Cofion gorau

BOB AC EILEEN ROBERTS

HANES LLEOL

Yn dilyn eich llythyrau a'ch
aml sgysiau, mae'n amlwg fod
llawer o ddarllenwyr yr *Eco* â
diddordeb mewn hanes lleol.

Mae Coleg Menai yn
bwriadu cynnal cwrs ar Hanes
Lleol yn Llanberis, rhwng
10.00 a 12 o'r gloch ar foreau
Llun o 14 Ionawr 2008 ymlaen.

Peidiwch ac eistedd yn ôl.
Codwch y ffôn a chysylltwch â
Choleg Menai i gofrestru
(Ffon: 673450).

Rhwng y tiwtor a'r rhai
eraill fydd, gobeithio, yn
ymuno â'r cwrs, fe fyddwch yn
saff o ymestyn yn bleserus eich
gwybodaeth o hanes yr ardal.

Eglwys Sant Padarn
Nos Sul Rhagfyr 23ian
am 7.30yh

**"Neges y Nadolig
ar
Lafar a Chân"**

Tocynnau - £2
wrth y drws

LL55
yng nghwmni
(Côr Unedig Eglwysi Llanberis)

RHODDION

£10: Mrs Jennie Williams, 23
Stryd Eleanor, Caernarfon;
Pwyllgor Eisteddfod Llanrug
a Chwm-y-glo; Goronwy
Jones, Cilan, Tan y Cae,
Bethel; Iorwerth a Peri Evans,
5 Hafod Oleu, Deiniolien;
Carrie Hughes, 5 Ffordd
Padarn, Llanberis; Mrs
Gwyneth Jones, 25 Bryn
Tirion, Penisarwaun; Bob ac
Eileen Roberts, Northampton.

£5: Mrs Jane Jones, Peris
View, Llanberis.

CYNGERDD MAWREDDOG

**CÔR MEIBION CAERNARFON
YN DDEUGAIN OED**

GYDA

**SARAH-JANE DAVIES (SOPRANO)
DAVID KEMPSTER (BARITONE)
ANNETTE BRYN PARRI (CYFEILYDD)**

7.30 - NOS SADWRN

CHWEFROR 2AIL 2008

GALERI CAERNARFON.

TOCYNNAU - £12; £10 (Henoed) £8 (Plant)

"MAE LLAW Y GAEAF OER"



Hafoty, Cwmbwynog: Gaeaf 2007

BWLCH MASGWRN

Gwag dy fythynnod,
di-fref dy braidd;
Dryllio'r tawelwch
Ni fyn, Ni fardd.

Ni chân dy adar,
Dim ond croesi'n chwim;
A churiad adenydd
Sy'n ddychryn im

Daw sibrwd y nentydd
O'r creigiau cyd;
Wyt lawn isleisiau
A hiraeth mud.

O na chawn chwerthin
Neu wylo'n drwm;
Ond ofnaf ddeffro
Dy feirwon llwm.

R. BRYN WILLIAMS
Y Cymro, 25 Medi 1943

Cyfeiriad sydd yma at wacter y cwm oherwydd yr ymarfer saethu a oedd yn digwydd yno yn ddyddiol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.



Bwlch Masgwrn.

D YSGOL YRRU **L** **AL-DRIVE** **LLANBERIS A'R ARDAL**

- GWERSI FESUL AWR
- CYRSIAU GLOYWI
- GOSTYNGIAD PAN YN BWCIO MEWN BLOC
- HYFFORDDIANT TRAFFORDD
- "PASS PLUS"– YSWIRIANT RHATACH!!
- GWERSI DWYIEITHOG

ALED JONES A.D.I.

Ffôn: (01286) 872144 / 07917888631 / www.aldrive.net

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Ffynnon Aelgarth, ger Tyn yr Aelgerth, Gwaun Cwm Brwynog.

LLUNIAU: KEN JONES, LLANBERIS.

CHWILOTA

PWDIN 'DOLIG O GOLOFN



Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o'r rhai sy'n paratoi eu pwddinau Nadolig eu hunain eisoes wedi eu cymysgu a'u coginio, neu'n barod i'w berwi mewn clytiau. Mae eraill yn ddigon parod i brynu pwddinau sydd wedi eu paratoi'n barod. Yr hyn sy'n gyffredin i'r ddau fath yw'r amrywiaeth helaeth o wahanol gynhwysion sydd eu hangen i'w paratoi - a dim gormod o unrhyw beth. Dyna, gobeithio, fydd cynnwys y golofn hon y mis hwn - digon i'w flasu yn ystod yr ychydig ddyddiau cyn y Nadolig; yn boeth o'r wasg fel petae, a'r gweddill i'w fwynhau'n oer yn ystod wythnosau cyntaf mis Ionawr. Mwynhewch!

Glasgoed Stores



Glasgoed House a Glasgoed Stores, Peniarwaun.


Daeth y llun i'm sylw gyda chais am wybodaeth ynglŷn â lleoliad y siop yn Llanrug, ond erbyn chwilio (a chraffu efo chwydd wydr), daeth yr enw Glasgoed i'r amlwg uwchben drws y siop. Chwilota wedyn ar hen fapiau, a darganfod fod Glasgoed House yn bodoli ar fapiau cynnar yr Ordnans yn 1889. Doedd hi fawr o drafferth wedyn i olrhain y lle ar gyfrifiadau 1891 ac 1901, ac wedi hynny yn rhestrau'r etholwyr. Ac ym Mheniarwaun yr oedd y siop ac nid yn Llanrug.

Roedd yr enw yn awgrymu fod y tŷ a'r siop wedi bod, neu'n parhau i fod, yn eiddo i Stâd y Glasgoed, ond er i mi chwilio catalogau arwerthiant y stâd honno, doedd yr enw Glasgoed

House na Glasgoed Stores ddim yn ymddangos.

Teulu o'r enw Prosser a Prosser Roberts fu'n cadw'r siop ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ac yr oedd y siop bryd hynny yn cynnwys becws hefyd. Wedi hynny daeth Griffith Griffith i gadw'r siop, ac arhosodd ef a'r teulu yno hyd ychydig flynyddoedd wedi'r Ail Ryfel Byd. Mae'n ymddangos i'r siop beidio â bod erbyn diwedd y 1950'au, ac iddi, ynghyd â'r tŷ, gael ei dymchwel i adeiladu tŷ newydd, - Freshwinds - wrth ochr Meillionen. Mae'r giât haearn bwrw yn y llun yn parhau ar y safle heddiw.

Yn od iawn, does dim sôn am y siop yn y llyfr *Bro Deiniol*, er fod disgrifiadau pur fanwl o adeiladau a theuluoedd y gymdogaeth yn ymddangos yn



Y Noah's Ark wreiddiol yn Llanberis. Sylwch nad oes adeilad i'r chwith, ac felly, nid oedd y Prince of Wales wedi ei adeiladu pan dynnwyd y llun hwn.



Adeiladau'r hen Noah's Ark heddiw. Sylwch ar a chymharwch siâp y to a lleoliad y fenestri sydd wedi cadw eu patrwm.

gwneuthurwr esgidiau (neu bootmaker yn ôl y cyfrifiad) oedd yn byw yn 2 Hare Terrace. Robert Williams, cigydd genedigol o Gapel Curig oedd yn byw yn Noah's Ark, gyda'i wraig, Hannah (genedigol o'r Rhyl) a dau o blant. Dyna ddau ddirgelwch felly: ble roedd Hare Terrace a Noah's Ark?

Wedi cysylltu ag Eifion Roberts, sy'n gasglwr hen luniau pentref Llanberis, daeth yr atebion, ac yn well na hynny, cafwyd llun o Noah's Ark.

Mae'r ddau adeilad yn parhau mewn bodolaeth heddiw, ar y stryd fawr yn Llanberis, ond fod enwau gwahanol arnynt erbyn hyn. Dau dŷ yn unig oedd yn Hare Terrace, ac y mae'r ddau dŷ erbyn heddiw yn cael eu hadnabod fel Garth Maelog a Meifod. Tybir iddynt ar un adeg gael eu galw yn Denbigh Street hefyd. Yn union gyferbyn mae Noah's Ark.

Mae'r llun yn dangos mai 'Temperance Hotel and Refreshment Rooms' oedd un rhan o'r adeilad, ac mai

'Ironmongery and Fancy Repository' oedd y rhan arall. M. Williams oedd y perchennog, yn cynnig cawodydd poeth ac oer i'w gwsmeriaid. Sylwch hefyd nad oedd y 'Prince of Wales' wedi ei hadeiladu bryd hynny. Mae'n anodd rhoi dyddiad pendant i'r llun, ond yn yr hysbyseb, nodir fod gorsaf y rheilffordd 6 munud i ffwrdd. Roedd y rheilffordd o Gaernarfon i Lanberis wedi ei hagor yng Ngorffennaf 1869, felly, mae'n ddiweddarach na hynny.

O gymharu'r hen lun efo'r llun diweddarach, gwelir fod y rhan isaf wedi newid cryn dipyn, ond fod nifer o'r ffenestri gwreiddiol yn parhau yn eu lle yn rhan uchaf yr adeilad.

Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth am yr adeilad ac am y perchnogion cynnar.

Gwasanaeth i Gymdeithas Gyfeillgar

Yn ddiweddar gwelais anerchiad wedi ei gyflwyno i Owen Williams, Llanberis, ar ei ymdeoliad o'i swydd fel



E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU • CEIR AR GYFER PRIODASAU

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Llanberis a'r cylch

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

Sychlanhau • Altro

Ailwnio

Gwasanaeth

Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870088

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

ysgrifennydd cymdeithas gyfeillgar yr 'Independent Order of Oddfellows', rhan o'r 'Manchester Unity Friendly Society'. Mae wedi ei dyddio 1919, a'r arlunydd a fu'n gyfrifol am y gwaith llythrennu cywrair a'r llun o Lyn Padarn a'r Wyddfa yn y cefndir oedd Moses Williams. Rhoes Owen Williams ddeng mlynedd ar hugain o wasanaeth i'r gangen, ac yr oedd bellach wedi ei ddyrchafu yn Ysgrifennydd Gohebol Dosbarth Caernarfon. Bu hefyd yn flaenllaw iawn gyda'r gwaith ynglŷn â'r Ddeddf Yswiriant newydd a ddaethai i rym yn ystod ei dymor. Arwyddwyd yr anerchiad gan Richard Evans ac Evan William Evans, dau o Ymddiriedolwyr y gymdeithas yn Llanberis, William William Davies, ei Llywydd, a William John Evans, yr ysgrifennydd.

Coron Arian – ond nid am farddoniaeth

Rai misoedd yn ôl soniais am adran yr Urdd ym Mrynrefail, a'r ffaith fod un o'r aelodau – Jennie Arfon Williams – wedi ennill coron yn un o Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd yn ystod y 1930'au. Bellach, daeth cadarnhad a mwy o wybodaeth gan un o'r teulu. Gyda diolch i Mr David Oliver Williams (gynt o Frynrefail) o Wallington, Surrey, am ei lythyr diddorol. Roedd Jennie Arfon yn fodryb iddo, chwaer i'w dad, ac mae'n cofio'r Goron Arian yn y cwpwrdd gwydr yn nhŷ ei nain. Fel adroddwraig y gwnaeth Jennie Arfon enw iddi ei hun ac, yn naturiol, roedd y teulu yn falch iawn o hynny. Ond roedd y goron yn peri chwilfrydedd i'w nai bychan, a gofynnodd un diwrnod i'w nain am ba gamp yr enillwyd honno. Cafodd ateb digon swta – *'Am sgwennu rwbath'*. Roedd hi'n amlwg nad oedd *'sgwennu rwbath'* hanner mor bwysig ac adrodd!

Fel yr adroddwyd, mudodd Jennie Arfon i Awstralia a bu'n weithgar iawn yno gyda chymdeithasau Cymraeg. Ysgrifennodd ei merch, Einir Wyn, at David Oliver Williams, gan anfon copi iddo o'r *Illawara Mercury*, papur lleol Woollongong, wedi ei ddyddio 16eg o Fehefin 1969. Roedd y Gymdeithas Gymraeg yno yn dathlu achlysur yr arwisgiad yng nghastell Caernarfon, a Jennie Arfon oedd y siaradwraig wadd. Roedd hi eisoes wedi ei chyflwyno i aelodau o'r teulu brenhinol ddeng mlynedd ar hugain ynghynt, ar ymweliad y brenin Sior VI â Chaernarfon yn 1936.

'Mae'n amlwg iddi fod yn weithgar ac yn flaenllaw gyda gweithgareddau'r Gymdeithas Gymraeg fel siaradwraig, adroddwraig ac actores. Mae

cyfeiriad ati fel bardd hefyd, ond er fod sôn amdani'n ennill coron, nodir mai am ysgrif ar hanes Cymru yr enillodd honno.'

Ond beth tybed yw hanes y goron arian erbyn heddiw. Yn ôl yr erthygl yn y papur o Awstralia, cyflwynwyd y goron i amgueddfa yng Nghymru, ond ni ddywedir pa un. Rwyf eisoes wedi holi yn Amgueddfa Gwynedd ym Mangor, ond does dim cofnod yno o goron arian yn cael ei chyflwyno iddynt. Ble felly y gallai'r goron fod? Os oes rhywun o'r teulu yn gwybod, anfonwch air.

Cloddfa Aur Llanberis

A thra'n sôn am Awstralia, daeth Eifion Roberts, Llanberis, ar draws y llun hwn ar gerdyn post yn dangos golygfa ddiwydiannol; na nid yn Llanberis, Gwynedd, ond yn Ballarat, Awstralia. Teitl y gloddfa aur hon yw Llanberis Mine. Pwy tybed o'r ardal hon fu'n mentro i bellafoedd byd i enwi gwaith aur ar ôl pentref bychan yng Nghymru?

Treftadaeth Gymreig yn Nebraska

Rhoddyd sylw sawl tro i rai o aelodau teulu'r Clossiaid yn y fro hon, a'r ffaith iddynt fudo i blwyf Llanberis yn ystod canol y ddeunawfed ganrif. Ond roedd aelodau yn mudo oddi yma hefyd, a deuthum ar draws disgynyddion i un ohonynt yn Nebraska yn ddiweddar. Ei enw oedd Ellsworth Evan Closs, mab Evan a Jennie (Jones) Closs. Ei daid a sefydlodd fferm yn ardal Gage County yn y dalaith honno dros gant a deugain o flynyddoedd yn ôl, ac Ellsworth oedd y cyntaf o'r gymdeithas Gymraeg i gael ei fedyddio yn y capel Cymraeg cyntaf i'w sefydlu yno, sef Bethel. Roedd ef, a'i frawd, Maldwyn Closs yn enwog yn yr ardal am ganu deuawdau, ac yn aelodau o'r band pres lleol.

Bu Ellsworth yn ffermio gydol ei oes, ac ef oedd yr olaf o drigolion gwreiddiol Gage County i siarad Cymraeg. Bu farw yn 2000, a chladdwyd rhywfaint o'i lwch ym mynwent Nant Peris. Cyflwynodd y teulu rodd er cof amdano i Brosiect Treftadaeth Gymreig sydd bellach wedi ei ail-enwi yn 'Great Plains Welsh Heritage Project'. Mae canolfan wedi ei sefydlu ganddynt yn nhref Wymore, gerllaw'r ardal ble sefydlwyd cymuned Gymraeg Bethel, ac y mae nifer helaeth o weithgareddau Cymreig yn cael eu cynnal yno, gan gynnwys Dydd Santes Dwynwen, Gŵyl Ddewi, Cymanfa Ganu, a nosweithiau llawen.

Sefydlwyd ysgol Gymraeg yno gan Thomas ac Elisabeth Rowlands, a sicrhawyd fod yr athrawon yn medru Cymraeg, gan fod plant yr ymfudwyr yn methu siarad unrhyw air o



Gwaith Aur y Llanberis Mine yn Ballarat, Awstralia.

Saesneg ar y cychwyn. Mor wahanol i'r sefyllfa a fodolai yma yng Nghymru bryd hynny! Heddiw, cynhelir dau ddiwrnod o 'ysgol Gymreig' yn yr ardal, gan ddathlu hanes addysg yno a phwysleisio pwysigrwydd y Cymry cynnar yn yr ardal.

Caban Crwn

Mae termau chwarelyddol yn prysur ddiflannu, a'u hystyron yn mynd ar ddifancoll. Cais yw hwn am eglurhad am y term 'caban crwn'. Mae 'caban' yn ddigon cyffredin, ac yn ddisgrifiad o'r cwt ble treuliai'r chwarelwyr eu hawr ginio i drin a thrafod helyntion y byd ac i gynnal eu cyfarfodydd cystadleuol. Ond doedd pob caban ddim yn grwn. Felly, beth yw arwyddocad y term?

Daeear Cathod

Mae daear pry llwyd neu ddaear llwynog yn eithaf adnabyddus, a cheir enwau am leoliad rhai ohonynt mewn amryw blwyfi gwledig. Gwn am ddaear llwynog oedd yn enw ar dyddyn ym mhlwyf Dwygyfylchi er enghraifft, ond a ddaeth yn ddiweddarach yn 'Fox Hole' hollol ddi-ddychymyg. Ond beth am ddaear cathod, sef daear y gath wyllt. Mae'n siŵr mai cyfeirio at y gath wyllt a wna rhai o'r enwau a restrir gan J. Lloyd-Jones yn *Enwau Lleodedd Sir Gaernarfon*; enwau megis Carreg y Gath yn Rhiwlas a Bryn y Gath Lwyd yng

Nghapel Curig

Ond oes yna enwau mwy lleol, rhai nas cofnodwyd ar unrhyw ddogfen ond yn bodoli ar lafar ymhlith ffermwyr a helwyr y fro? A phryd tybed y diflannodd y gath wyllt o'r fro hon.

Mae cofnodion plwyf cynnar yn dangos fel y byddid yn talu am gynffonau llwynogod a'r bela, ond methais â gweld cofnod o dâl am ladd cath wyllt. Ydi hynny'n arwydd ei bod wedi diflannu o'r ardal ers cyn cof?

Poncan Peel

Roedd gŵr arall o'r enw Peel yn byw yn Llanberis yn ystod yr un cyfnod: Reginald Peel, 28 oed, a pheiriannydd sifil wrth ei alwedigaeth, ond yn enedigol o Swydd Buckingham. Beth tybed oedd hwnnw'n ei wneud yn Llanberis efo gwas a morwyn i ofalu amdano? Gyda llaw, ym Mryngwyddfan roedd yn byw – agos iawn at Boncan Peel. Cyddigwyddiad tybed?

A dyna ddiweddu efo briwsionach y pwddin 'Dolig. Mwynhewch dymor y gwyliau, a dymuniadau gorau am y flwyddyn newydd pan ddaw hi. Cofiwch gysylltu ynglŷn ag unrhyw agwedd o hanes lleol – Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn: 01286 673515.



Na, nid band pres cynnar o fro'r chwareli mo hwn, ond band cymunedol yn Nebraska, a Chymry o gymuned Gymreig Bethel oedd nifer o'r aelodau, gan gynnwys y ddau frawd, Ellsworth a Maldwyn Closs.

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Bwrw trem ar y flwyddyn 2007



Y mae nifer o betha' cofiadwy iawn yn cynnig eu hunain fel uchafbwyntia a digwyddiada yn ystod y flwyddyn 2007. Mor anodd ydy' dewis, ac eto y mae un peth sy'n aros! Ia'n wir, un o'r troeon annisgwyl gwefreiddiol hynny nad ydyw'r cof tra pery am ddileu yr un gronyn.

Ar yr 19eg o fis Mehefin postiwyd cerdyn post at fy nghymar a minna' o Ketchikan, Alaska. Cynhwyswyd arno lun hynod o drawiadol, fel y gwelir uchod, sef llun *eryr penfoel*, aderyn sydd bellach ar gynnydd yn ne-ddwyrain gwlad Alaska.

Prinhau fu hanes yr aderyn hwn, a hynny oherwydd ymyrraeth dyn â'r amgylchedd, gan achosi diflaniad yr eryr unigryw hwn o rai ardaloedd. Ni fu'r gor-ddefnydd o DDT, a chemegau eraill, o gymorth o gwbl i'r *eryr penfoel*. Heblaw'r ffotograff gwyh, cafodd Linda a minnau ein cyfareddu gan y negas a gynhwyswyd ar gefn y cerdyn post. Dyma beth a ddywedir:

Wedi gweld yr aderyn arbennig yma yn hedfan uwch ein pennau.

Eir rhagddo i fynegi mai ym Mae Glastel yn ystod yr un diwrnod yn gymwys y gwelwyd yr *arth goch* a'i phlant, ac anfarth o forfil, ac i goroni'r cyfan sonni bod y

tywydd yn anhygoel o braf i feddwl ein bod ynghanol yr eira.

Dau gyfaill da inni a ddanfonodd y cyfan atom. Cyfeirio rydw i at Seiriol a Beti Owen, Crud yr Awel, Bethel, edmygwyr brwd o fyd Natur. Y maent ill dau, yn eu horia' hamddan, yn gweithio'n ddygn ddigon gydag aelodau eraill Cymdeithas Edward Llwyd, a gyda'r blynyddoedd wedi trefnu nifar fawr o deithia' diddorol ar ran y Gymdeithas honno.

Gair byr ymhellach am yr *eryr penfoel*. Hwn ers y flwyddyn 1782 ydyw aderyn cenedlaethol Unol Daleithiau'r America. Un o deulu *eryr y môr* ydyw. *Penfoel*? Nid ydyw'n ddiffygiol ran plu. Aderyn nad ydyw'n *foel* mewn gwirionedd ydyw'r eryr hwn. Y mae'n frithog ran lliwia', ac wedi ei farcio drwyddo draw hefo'r lliw gwyn. Hwn ydyw'r aderyn 'sglyfaethus, ail ran ei faint yng Ngogledd America, gan fod y *condor Californiaidd* fymryn yn fwy ran corff nag ef.

Ond i ddyfod yn nes adra. Uchafbwynt arall imi yn ystod y flwyddyn 2007 oedd darllan yn y Wasg am gynnydd yn nheulu'r *môr-wenoliaid lleia'*, ymwelwyr tra prydfarth yr arferwn eu gwyllo yng nghyffinia' tref Tywyn, sir Feirionnydd, rai blynyddoedd yn ôl. Ydy, y mae oedi, a llygadu *môr-wennol* yn hedfan a throelli'n osgeiddig ar ei hadenydd, cyn plymio i'r dyfroedd a dal pysgodyn, yn brofiad gwirioneddol fythgofiadwy. Da deall bod yr unig *fôr-wenoliaid lleia'* sy'n ymweld â Chymru wedi magu naw deg a naw cyw eleni. Ie, a hynny er gwaetha'r oerni, y glaw, a'r gwyntoedd trymion.

Daw hyn i gyd â nyni at ddechra' hyn o lith, sef Beti a Seiriol, Bethel, Arfon. Un o'u merched ydyw Meinir, sy' erbyn hyn yn byw ym mro y llechi, sef Blaenau Ffestiniog. Da y cofiaf

fel y byddai Meinir, bob haf, yn diflannu o Fethel. Nid pawb a wyddai'r rheswm dros ei diflaniad. Yma yng Nghymru yr oedd hi bob haf yn cadw cyfri' o'r *môr-wenoliaid lleia'*. Sôn am waith calad, blinedig, a chwbwl ddi-ddiolch amdano. Byddai'n rhaid iddi fod ar ddihun yn ystod oria' mân y bora, er mwyn gneud yn hollol sicr na ddeuai

unrhyw anifail 'sglyfaethus draw at y pantleoedd nythu yn y graean, a difa'r cyfan.

Dyma'r gwaith amrhisiadwy a wnest ti hefo nifer o wirfoddolwyr yn y nawdegau Meinir wedi talu ar ei ganfed, a chlywaf chwitha', fel y gwnes inna', pan welais y newydd da, yn diolch o waelod calon.

BETH MAE NHW'N EI DD'EUD?

(Cystadleuaeth Agored i bob Oedran)



Rw'bath ciwt dros ben? Rw'bath sy'n peri i bawb wenu, neu ryfeddu? R'wbath digri'? Rw'bath ysmala? R'wbath gogleisiol?

Anfonwch eich cynnig/cynigion, efo'ch enw a'ch cyfeiriad yn llawn, i gyrraedd erbyn dydd Llun, 31 Rhagfyr, neu ynghynt i:

Cystadleuaeth Be' mae nhw'n ei dd'eud?

Neuadd Glasgoed,
LLANRUG
Gwynedd LL55 2BB

Y Prif wobwr ydyw tocyn llyfr Cymraeg gwerth £10, ond y mae 'na sawl gwobr gysur ar gael yn ogystal. Ewch ati! Cyhoeddir enwau'r buddugol, a'r dywediadau, yn *Eco'r Wyddfa* ym mis Chwefror 2008.



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA



oddiwrth pawb yn
Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis

Diolch am eich
Cefnogaeth drwy'r
flwyddyn!

the national
museum
wales
cymru



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul



**ROYAL VICTORIA
QUALITY HOTEL**
LLANBERIS



wrth droed yr Wyddfa
Ffôn: Llanberis 870253

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



Y DYN CIG

BRYNAFON, LLANRUG

675190 • 673188

Symudol: 07798 718188

Gwasanaeth lleol ar gyfer

Partion•Priodasau

Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur

Cig o ffermydd lleol, Partion rhwng 40 a 400!

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â: John Hughes Jones ar un o'r rhifau uchod

Pryd i Bawb

Bwffe blasus o safon
at bob achlysur

Priodas • Parti

Te Angladdau • Cinio Busnes

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

CERID MACKINNON

Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PY

(01286) 673190



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL


Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



J.M. JONES

a'i Feibion

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith

01286 672898

Cartref

01248 679089 • 01286 830996

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth barwb yn

ARVONIA



- Tocynnau Anrheg Gwyliau ar gael yma
- Gofynnwch am ein 'Brochure' Gwyliau Newydd

Y Sgwâr, Llanrug

Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvonias.co.uk

Gwefan: www.arvonias.co.uk

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996



- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

BRYSIWCH!

Nadolig Llawen
a
Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid
ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa



oddi wrth

WAVELL'S

Bryn ac
Angela Williams

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon 673574

PEN CIGYDD Y FRO


MYNNWCH Y GORAU

A DEWCH ATOM NI

Cefnogwch ein Hysbysebwy



Cyfarchion
Nadolig
LLANRUG



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed
am brisiau
cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

ffôn: (01286) 674183

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

YSGOL GYNRADD

Calan Gaeaf. Gwelwyd llond y lle o wrachod a sgerbydau ac ati yn neuadd yr ysgol pan gynhaliwyd dau ddisgo – un i Adran y babanod a'r llall i'r Adran Iau.

Diolchgarwch. Diolch i'r Parchedig Robert Townsend a ddaeth i'r ysgol i gynnal gwasanaeth arbennig cyn y gwyliau Diolchgarwch.

Noson Guto Ffowc. Cynhaliwyd noson lwyddianus eto eleni gyda gwledd o dân gwyllt.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Diolch i bawb a gyfrannodd focsys tuag at yr apêl yma. Gwerthfawrogi eich cyfraniad yn fawr iawn.

Charlotte's Web. Aeth Blwyddyn 6 i Galeri, Caernarfon, i fwynhau'r ffilm, gyda gweithdy i ddilyn.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb 100 mis Rhagfyr: £20: Mrs C. Evans, 9 Nant y Glyn; £7: Mr D. Jones, 2 Talybont; £5: Mrs M. W. Williams, Terfynfa, Talybont.

Diolch i aelodau'r Clwb am y gefnogaeth a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

CYFARCHION NADOLIG. Dymuna Catherine Griffiths, Tan y Fron, Lôn Groes, a'r teulu i gyd ddymuno yn dda i bawb am y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Ni fyddant yn anfon cardiau Nadolig eleni.

DIOLCHIAU. Dymuna Mrs Jennie Williams, 23 Stryd Eleanor,

Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn arbennig i Rachel am ei charedigrwydd.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG A CHWM-Y-GLO

Dymuna Pwyllgor Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm-y-glo ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud yr Eisteddfod yn un mor ddifyr, hwyliog a llwyddiannus eleni. Diolch yn arbennig i'n noddwyr, sef Bysus Arvonnia, y Ciropodydd, E.L.I. Parry; Edgar a Pat, Swyddfa'r Post, Llanrug; Siop Gwallt Elaine's; Gwynfa Pritchard, Gwerthwr Llefrith; Haf Roberts; Cwmni Cyfieithu Sillaf; London Garage, Cwm-y-glo.

Enillwyr Tlysau 2007

Cadair yr Eisteddfod ac £20: y cynnyrch llenyddol gorau Bl. 10–13: Carwyn George.

Tlws yr Ifanc a £10: y cynnyrch llenyddol gorau Bl.3–9: Heledd Anna Roberts.

Cwpan Emma Bernard: yr arlunydd gorau yn adran yr ysgolion (i'w chadw am flwyddyn): Siôn Eifion Land.

Tlws: am y perfformiad offerynnol gorau: Math Roberts.

Tlws yr unigolyn gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd (oedran Cynradd): Ceri Griffith.

Cadair Lowri: i enillydd yr unawd Bl. 1 a 2 (i'w chadw am flwyddyn): Leisa Gwenllian.

Rhyddiaeth a Barddoniaeth

Bl. 3 a 4. 1. Math Roberts; 2. Ceri Griffith; 3. Rhiannon Thomas.

Bl. 5 a 6. 1. Alicia Jones; 2. Beca Gwenllian George; 3. Hannah Williams.

Bl. 7. 1. Anna Wyn Jones.

Bl. 8 a 9. 1. Heledd Anna Roberts; 2. Chris Roberts; 3. Cara Edwards.

Bl. 10, 11, 12 ac 13. 1. Carwyn George; 2. Mari Deiniol; 3. Dewi Meirion Jones.

Tlws yr Eisteddfod: 1. Heledd Anna Roberts; 2. Chris Roberts.

Cadair yr Eisteddfod: 1. Carwyn George; 2. Mari Deiniol.

Cystadlaethau Llwyfan

Dosbarth Derbyn. Unawd: 1. Osian Land; 2. Cara; 3. Elliw. *Llefaru:* 1. Heledd; 2. Osian; 3. Erin.

Bl. 1 a 2. *Unawd:* 1. Leisa Gwenllian; 2. Teleri; 3. Iwan. *Llefaru:* 1. Moli; 2. Teleri; 3. Leisa.

Bl. 3 a 4. *Unawd:* 1. Ceri Griffith; 2. Llinos Jones; 3. Siôn Eifion Land. *Llefaru:* 1. Math Roberts; 2. Beca Llwyd Roberts; 3. Siôn Eifion Land.

Bl. 5 a 6. *Unawd:* 1. Mari Gibbard; 2. Gwern Brookes; 3. Hanna Tulliver; *Llefaru:* 1. Mared Lois Williams; 2. Bethan Roberts; 3. Sioned Elin Griffith.

Cynradd/Uwchradd:

Unawd: 1. Anna Wyn Jones; Cydradd 2. Heledd Anna Roberts a Rhodri Brookes; 3. Iwan Arwel.

Dawnsio Disgo Unigol: 1. Sêr Llanrug. *Sgets:* 1. Criw 'Y Cyfweiliad' (Uwchradd). 2. Criw 'Y Mwnci' (Cynradd). *Llefaru:* 1. Elain Siân Roberts; 2. Anna Wyn Jones; Cydradd 3. Llio Roberts a Ffion Erin.

Unawd Cerdd Dant neu Alaw Werin: 1. Anna Wyn Jones. *Parti Llefaru:* 1. Parti Mynd am Dro.

Deuawd: 1. Cara Mitchell ac Elain Siân Roberts. *Grŵp – meimio i gân gyfoes Gymraeg:* 1. Criw Gwibdaith Hen Frân.

Cynradd

Parti / Côr Unsain: 1. Parti Anti Susan. *Parti Llefaru:* 1. Parti John Tŷ Pot; 2. Parti Pam? *Unawd Offerynnol:* 1. Math Roberts; 2. Deian 3. Mared Lois Williams.

Uwchradd

Unawd Offerynnol: 1. Elain Siân Roberts; 2. Anna Wyn Jones; 3. Llywelyn Williams. *Parti Canu Agored:* 1. Parti'r Ysbrydion.

Enillydd Cadair Lowri: Leisa Gwenllian.

Unigolyn Gorau yn y cystadlaethau canu ac adrodd: Ceri Griffith.

Perfformiad Offerynnol gorau: Math Roberts.

Canlyniadau Celf a Chrefft

Arlunio

Meithrin / Derbyn. 1. Tomi Llywelyn; 2. Osian Eifion Land; 3. Rhydian Llŷr Williams.

Bl. 1 a 2. 1. Teleri Medi Jones; Cydradd 2. Leisa Gwenllian a Sophie Marie Williams; 3. Teleri Medi Jones.

Bl. 3 a 4. 1. Siôn Eifion Land; 2. Siôn Eifion Land; Cydradd 3. Harri Roden a Math Roberts.

Bl. 5 a 6. 1. Iwan Rhys Jones; 2. Holly Smith; 3. Beca George.

Bl. 7 ac 8. 1. Anna Wyn Jones; 2. Rhodri Llŷn Brookes; 3. Anna Wyn Jones.

Bl. 9 a 10. 1. Llywelyn Williams.

Tri Dimensiwn

Meithrin / Derbyn. 1. Tomi Llywelyn; 2. Osian Eifion Land; 3. Lois Angharad.

Bl. 1 a 2. 1. Efa Lewis Roberts; 2. Catrin Smith; 3. Moli Wyn Pritchard.

Bl. 3 a 4. 1. Math Roberts; 2. Gethin Wyn Jones; 3. Gwydion Williams.

Bl. 5 a 6. 1. Llŷr Guto Williams; 2. Nia Haf Williams; 3. Mared Lois Williams.

Uwchradd. 1. Anna Wyn Jones; 2. Rhodri Llŷn Brookes.

Tecstilïau

Babanod. 1. Osian Eifion Land; 2. Rhydian Llŷr Williams; 3. Erin Haf Williams.

Adran Iau. 1. Gethin Wyn Jones; 2. Siôn Eifion Land; 3. Robin Whiteside Thomas.

Uwchradd. 1. Anna Wyn Jones.

Agored. 1. Julie Jones; Cydradd 2. Rhian Thomas ac Eirianwen Thomas; 3. Rhian Thomas.

Coginio

Meithrin / Derbyn. 1. Osian Eifion Land; Cydradd 2. Mared Llwyd Roberts a Guto Whiteside Thomas; Cydradd 3. Ceri Wyn Pritchard, Enlli Gwyn a Iolo Garton Jones.

Bl. 1 a 2. 1. Deio Garton Jones; 2. Teleri Medi Jones; Cydradd 3. Elain Angharad Elis ac Anna Whiteside Thomas.

Bl. 3 a 4. 1. Gethin Wyn Jones; Cydradd 2. Siôn Eifion Land a Gwydion Williams; Cydradd 3. Robin Whiteside Thomas ac Owain Gibbard.



DYMUNA GWYNFA A MARGARET PRITCHARD

GWERTHWYR LLEFRITH

CEFN LLWYD

LLANRUG

Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN

A

BLWYDDYN NEWYDD DDA

I CHWI OLL



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn siop

LONDIS

FFORDD YR ORSAF LLANRUG

Ffôn: 672937

Y gwerth gorau'n lleol

- Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
- Dewis da o fwyd a diod i ddathlu'r Wyl o ben bore tan yn hwyr y nos!

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

- ★ Gwasanaeth 7 diwrnod
- ★ O ddrws i ddrws
- ★ Control Deuol

D L

PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug

Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blwyddyn

Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng



NGHARTREF

Joelas

Ffordd yr Orsaf LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Bl. 5 a 6. 1. Mared Lois Williams; 2. Mari Gibbard; Cydradd 3. Dafydd Lewis Roberts, Rebecca Wilson a Rhun Meirion Williams.

Uwchradd. 1. Anna Wyn Jones; Cydradd 2. Deian Williams a Robin Llywelyn Williams; Cydradd 3. Gwenno Gibbard, Heledd Anna Roberts ac Elain Siân Roberts.

Agored
Merched. 1. Bethan Wyn Jones; Cydradd 2. Rhian Whiteside Thomas ac Eirianwen Thomas.

Dynion. 1. Dafydd M. Roberts; 2. Dafydd Whiteside Thomas.

Jam / Marmalêd. 1. Eirianwen Thomas (jam a marmalêd); 2. Eirianwen Thomas; 3. Dafydd M. Roberts.

Diod. 1. Dafydd M. Roberts.

Gosod Blodau

Agored. 1. Mair Parry; 2. Ffion Haf Roberts; 3. Meirwen Lloyd

Dyluniad Cyfrifiadurol

Babanod. 1. Guto Whiteside Thomas; 2. Anna Whiteside Thomas; 3. Rhydian Llŷr Williams.

Adran Iau. 1. Rhun Meirion Williams; Cydradd 2. Siôn Eifion Land a Robin Whiteside Thomas; 3. Llŷr Guto Williams.

Uwchradd. 1. Anna Wyn Jones; 2. Rhodri Llŷn Brookes; 3. Llywelyn Williams.

Fotograffiaeth

1. Miriam Catrin; 2. Beca Llwyd Roberts; 3. Ffion Haf Roberts.

MERCHED Y WAWR. Fe fwynhaodd dros 30 o aelodau Ginio Nadolig amheuthun yng Ngwesty'r Seiont Manor, Llanrug, nos Fawrth, 11 Rhagfyr. Bu'n noson gyfeillgar a hwyliog a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolchodd y Llywydd, Megan Roberts, i Ann Thomas am y trefniadau trylwyr. Anfonwyd ein cofion at Mrs Whiteside Thomas gan obeithio ei bod yn gwella wedi codwm hegr. Cofion annwyl hefyd at ein Llywydd Anrhydeddus, Mrs W.A. Jones, Dalar Deg, sydd yng Nghartref Nysio Penisarwaun.

Diolchwyd i'r aelodau a fu'n cystadlu yn y Cwis Hwyl ac i Olwen a Margaret am y trefniant blodau hyfryd fel gwobr raffl ar noson y Cwis. Bydd Mair Huws a Beryl Thomas yn cynnal Distawrwydd Noddedig ar 18 Ionawr 2008 er budd Tŷ Gobaith.

Cynhelir Bowlio Deg ar 18 Ionawr a gobeithir trefnu timau o'r gangen. Mae Pat yn cymryd enwau y rhai sy'n awyddus.

Enillwyr y raffl yn ein Cinio Nadolig oedd Menna, Meryl a Bethanne. Dymunir pen-blwydd hapus arbennig i Bethanne ar 16 Ionawr.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 8 Ionawr yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd Glyn Jones a bydd yn dangos i ni y grefft o wneud cyflaith.

Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r holl aelodau.

O SIAMBAR SELWYN

Gair i chi'r plant, am y tro.

O un sy wedi bod mor hoff o grwydro, fŷm i erioed yn awyddus i fynd oddi cartre dros y Nadolig. Ond petawn i yn cael fy nhemtio i godi pac tros yr Wyl, i ble'r awn i?

Wel, yn sicr, nid i dorheulo ar draeth rhyw ynys bellenig, a dim hyd yn oed i Cala Bona ar Ynys Majorca! Na, i ganol y mynyddoedd i rywle fel Y Swisdir, Awstria, Norwy, neu hyd yn oed i Greenland bell y byddwn i'n dymuno mynd. Llapio'n gynnes a throedio drwy'r eira a dychwelyd at danllwyth o dân coed i fwynhau'r gwledda a'r dathlu.

Byddaf, mi fyddaf i'n hoffi gweld 'pen yr Wyddfa i gyd yn wyn' dros dymor y Nadolig.

Mae'n siŵr gen i, blant, y byddai Nadolig gwyn yn rhoi lliw ychwanegol ar eich 'Dolig chitha hefyd. Wedi gwagio'r hosan ac agor yr holl barseli, mor braf fyddai cael mynd allan i ganol yr eira, o sŵn y teledu a chleciadau pob cracer. Sôn am gracer, blant, glywsoch chi am y gracer ryfedda a welwyd erioed?

Roedd y gracer ryfedda a grewyd erioed
Yn ymestyn o Fangor i Fetws-y-Coed,
A thîm rygbi y ddinas a thîm o Nant Conwy
Yn chwysu a baglu wrth geisio ei thynnu,
Nes creu andros o glec ar lannau Llyn Ogwen
A dyna fu achos y Nadolig Llawen

Oherwydd

O'r gracer anferth daeth mul a chath
Jiraff a mwnci, neidar gantroed chwe llath,
Eliffant pinc, naw chwannen a chi,
Sebra a llwynog a dau tshimpansî;
Ceffylau, llyffantod a sawl deryn to,
Cwningen a bustach, caneri a llo;
Dau ddalec o Mars a llygod yn bla
A dau ddyn eira, os gwelwch chi'n dda.

A mawr oedd y stŵr a'r halibalw
Pan droes Dyffryn Ogwen yn gartre i sŵ,
A'r plant wrth eu bodd yn cael amser ffantastig
Pan ffrwydrodd y cracer ar fore'r Nadolig.
A phan ddaeth y diwrnod cofiadwy i ben
Roedd yr hanes i gyd ar *News at Ten*,
Ac am wythnosau bu taeru a dadla
Nad cracer oedd o,

ond yr ail ARCH NOA.



**Nadolig Llawen iawn i chi blant,
ac i chithau sy' dipyn bach hŷn, wrth
gwrs, a diolch i chi am droi i mewn
i'r siambar.**

UN FUNUD FACH

Y GAIR

Diolch am hynny, fydd gwasanaeth Nadolig Ysgolion Sul capeli Deiniolen a Llanberis byth yn cael eu cynnal yr un pryd â'i gilydd. Mae hynny'n golygu fy mod i'n gallu bod yn y ddau, fel y digwyddodd heddiw.

Mae hefyd yn golygu y gallwn ddefnyddio'r un preseb ar gyfer y ddwy oedfa! Ac felly, wedi i blant Deiniolen gyflwyno eu Drama Geni'r bore 'ma, mi gefais fenthg eu preseb unwaith eto i blant Llanberis gael ei ddefnyddio yn eu Drama hwythau heno.

Ar ddiwedd yr oedfa yn Neiniolen mi estynnais y preseb i flaen y llwyfan; gan osod y Beibl oedd gennyf gyda mi ar ben y preseb, rhag i mi adael y naill neu'r llall ar ôl yn y capel. Cefais baned a mins pei cyn cychwyn oddi yno. Ond, pan euthum i nôl y preseb, doedd dim golwg o'r Beibl. Chwiliais amdano, cyn sylweddoli bod rhywun wedi ei guddio dan y gwellt yn y preseb! Lle bu'r ddoli'n cysgu yn ystod Drama'r plant roedd y Beibl bellach yn gorwedd. Ac onid dyna'r Nadolig i'r dim? Gair Duw mewn preseb.

Gair Duw yw'r Beibl, wrth

gwrs. Gair Duw yw'r Beibl cyfan, a thrwy'r Gair hwn y mae Duw yn siarad â ni. Trwy ei Air y mae Duw yn ei egluro ei hun i ni ac yn cyhoeddi'r gwirioneddau mawr amdano'i hun. Ac o'i ddechrau i'w ddiwedd, o adnod gyntaf Genesis i adnod olaf Llyfr y Datguddiad, mae Gair y Duw Byw yn ein cyfarch a'n goleuo.

Ond mae'r Beibl ei hun yn sôn am yr Arglwydd Iesu Grist fel 'Y Gair'. Ac fe glywn ddarllen y Nadolig hwn eto y geiriau cyfoethog o bennod gyntaf Efengyl Ioan:

Yn y dechreuad yr oedd y Gair: yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair... A daeth y Gair yn gnawd, a phreswyllo yn ein plith, yn llawn gras a gwirionedd;

gwelsom ei ogoniant ef, ei ogoniant fel unig Fab yn dod oddi wrth y Tad.

Mae'r term hwn, fel yr eglura Ioan, yn dangos bod Iesu'n berson dwyfol oedd yn bod erioed gyda Duw. Mae'n dangos mai'r Iesu yw Mab Duw oedd â rhan yn y gwaith o greu'r byd yn y lle cyntaf. Ac mae'r term yn dangos hefyd mai'r Iesu sy'n egluro Duw i ni yn llawn.

Y Beibl yw Gair Duw ar bapur, a chawn droi ei ddalennau a darllen a deall am Dduw a'i ffyrdd. Iesu Grist yw Gair Duw mewn person, a chawn edrych arno a gweld Duw a'i natur a'i waith.

Ac ar ŵyl y Nadolig fe ddiolchwn fod Y Gair, Duw ei hun, wedi dod i orwedd mewn preseb. Dyna'r rhyfeddod mwyaf. A dyna'r Nadolig.

JOHN PRITCHARD



**Nadolig Llawen
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco**

**Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!**



Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban
CYF





Cyfarchion Nadolig LLANRUG

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

**WENDY
a
STAFF**

**TAFARN
PENBONT
LLANRUG**

Lle braf a chwmni difyr
dros wyliau'r Nadolig a'r
Flwyddyn Newydd

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Dave, Bobbie a staff y

**GLYNTWROG
LLANRUG**

Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb
ym Mharc Cartrefi Gwyliau

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg
LLANRUG

– lle gwirededwyd breuddwyd

Mae ein llwyddiant wedi parhau eleni eto
gydag ennill

Gwobr Aur Cadwraeth David Bellamy



GRŴP
**TALACRE
BEACH**

Yn dilyn y datblygiadau
parhaol oddi mewn i'r
parc, mae'r fenter yn awr
yn cyflogi 26 o bobl
gydol y flwyddyn, gyda'r
nifer o swyddi yn
cynyddu hyd at 60 yn
ystod prysurdeb tymor
yr haf.

Mae'r cwmni yn dal i
gefnogi a noddi nifer o
achosion da yn
yr ardal.



Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth
**BRYN AFON
ENGINEERING LTD**
PEIRIANWYR MECANYDDOL



Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Gwynfryn a Valerie Lloyd



**4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 674781

- Defnyddir peiriant sugno i lanhau
- Simneau glân am bris rhesymol

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth **Elaine a Staff**
SIOP DRIN GWALLT

Elaine's

LLANRUG

Ffôn: 672023

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

DYLAN, MIKE A HOLL STAFF
SIOP CHIPS TEGFAN
Y Sgwâr
LLANRUG 678282

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
PAT AC EDGAR

**SWYDDFA'R POST
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 672422



CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Dymuna Cyngor Cymuned Llanddeiniolen Nadolig Llawen a phob bendith yn ystod y flwyddyn newydd i'r holl ardalywyr:

Crynodeb o Gyfarfodydd Tachwedd a Rhagfyr

Cyfarfu'r Cyngor ar y 6ed o Dachwedd a darllenwyd y weddi safonol gan y Clerc.

Croeso

Croesawodd y Cadeirydd y Cyngorydd Elspeth Mitcheson i'w chyfarfod cyntaf ar ôl cyfnod o waeledd.

Materion o'r Cofnodion

Dywedodd Hefin Williams bod y Gangiau Cymunedol wedi gwneud gwaith arbennig o dda yn Rhiwlas, rhannwyd eu cynllun gwaith tan ddiwedd Ionawr.

Darllenwyd ateb gan Alun Ffred Jones AC ynglŷn â'r Gwasanaeth Iechyd. Gofynnodd Len Jones am gopi ohono ar gyfer trafodaethau pellach.

Dim 50mya ar ffyrdd bach o'r A4244 - mae'r Cyngorwyr Sir am ddwyn y mater i fyny.

Gohebiaethau eraill

Cais gan Ken Jones, Cae Coch, am gât ar lwybr 131 Craig Dinas i Frynrefail - anfonwyd ymlaen i Wynedd.

Tai fforddiadwy. Cyflwynwyd llythyr Janet Ryder AC yn sôn am fwriad y Cynulliad i gynyddu'r nifer o dai fforddiadwy i bobl ifanc ac yn gwahodd ymateb. Dywedwyd bod Gwynedd yn disgwyl adroddiad arolygwr, dim ond tri ty fforddiadwy sydd yn y plwyf ar hyn o bryd. Pwysleisiodd Phyllis Ellis bod gwir angen tai ychwanegol o unrhyw fath ym Mhenisa'rwaun, nid oes modd i ieuencid lleol aros yn yr ardal oherwydd cyfyngder llinell 'Amcan Un'. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar ddyfodol yr ysgol. Gellir cymharu'r sefyllfa yma â phentrefi eraill yn yr ardal lle mae'r ysgolion yn orlawn a rhyddid i ddatblygu mwy o dai.

Awgrymodd y Cadeirydd ein bod yn aros i weld drafft y cynllun unedol yn ôl o'r Cynulliad. Penderfynwyd gosod eitem ar raglen y cyfarfod nesaf i wyntyllu effaith cyfyngderau cynllunio ar ysgolion yr ardal a'r ffaith bod pobl ifanc yn gorfod symud o'u hardaloedd.

Bryn Tirion, Penisa'rwaun. Nid oedd gwrthwynebiad i Wynedd osod llinellau melyn ar y fynedfa i'r uchod.

Yr Heddlu. Cafwyd enwau a rhifau ffôn y Rheolwyr Rhawd canlynol:

PC Phil Kennedy:
(Llanrug/Llanberis/Deiniolen/
Cwm y Glo): 07810 814 037

PC Gethin Jones
(Penisa'rwaun/Bethel/Rhiwlas/
Y Felinheli): 07854 954 858

Swyddog Cefnogi Cymuned
Joanna Clarke: 07768 556 278

Rhoddion i fudiadau elusennol yr ardal (*Derbyniwyd mantolen ariannol gyda phob cais.*)

Penderfynwyd ymateb i'r ceisiadau fel yma:

Pwyllgor Neuadd	
Penisa'rwaun	£200
Neuadd Bentref Rhiwlas	£200
Neuadd Goffa Bethel	£200
Llais Ogwan	£50
Eco'r Wyddfa	£200
Eisteddfod Bethel	£250
Eisteddfod Bentref	
Penisa'rwaun	£250
Eisteddfod Gwaun Gynfi	£250
Seindorf Deiniolen	£200
Clwb Orwig, Dinorwig	£100
Clwb Bro Bethel	£100
Clwb Snwcer Deiniolen	£100
Clwb Snwcer Bethel	£100
Clwb Pêl Droed	
Ieuencid Bethel	£100
Clwb Pêl Droed Rhiwlas	£100
Ti a Fi ac Ysgol Feithrin Rhiwlas	£200
Cymdeithas Lenyddol	
Bethel	£100
Rygarug	£100

Cyfanswm = £2,800

Sicrhawyd Elspeth Mitcheson na dderbyniwyd cais oddi wrth Clwb Henoed Rhiwlas.

- Cais 'Ymgyrch Y Porth Coffa', Bangor. Dywedodd Len Jones na chafodd y Cyngor yr hawl i gyfrannu at Gofeb Deiniolen rai blynyddocdd yn ôl. Gwneir ymholiadau.

- Cais Ymgyrch 'Efe'. Dywedwyd y penodwyd person i gydlynnu gwaith ysgolion Sul o'r blaen ond ni wnaed fawr ddim yn yr ardal yma. Ceisir mwy o wybodaeth am fwriad 'Efe'.

Penderfynwyd gohirio penderfyniad ar y ddau gais yma tan cael mwy o wybodaeth.

Cynllunio

Derbyniwyd 6 chais ac fe ganiatawyd 16 cais gan Wynedd.

Adroddiadau

Dywedwyd bod newidiadau ar waith yn Tŷ Mawr Cottages heb ganiatâd cynllunio - llythyr i Wynedd.

Cyfeiriodd Hefin Williams at gyfnod hir tân gwyllt a gwerthu tân gwyllt ar ôl y dyddiad. Trafodwyd hyn gan bwysleisio bod angen canllawiau a gwell rheolaeth. Penderfynwyd ysgrifennu at yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân.

Ychwanegodd Len Jones bod

tân wedi ei gynnu ar fedd ym Mynwent Macpela. Mae aelodau'r cyhoedd yn ffonio eu haelod i adrodd am gamymddwyn, dylent ffonio'r heddlu yn syth hefyd. Mae angen apelio ar rieni i reoli eu plant yn well. Penderfynwyd gwahodd Cath Roberts o Adran Troseddau ac Ymddwyn Gwrthgymdeithasol Cyngor Gwynedd i gyfarfod y Cyngor. Awgrymodd Elspeth Mitcheson wahodd y Rheolwyr Rhawd hefyd. Penderfynwyd gofyn i'r Prif Uwcharolygydd Gareth Pritchard beth yw strategaeth plismona'r plwy.

Cyfeiriodd Phylip Jones at gwyn flaenorol y Cyngor bod draeniau peryglus ar agor wrth ochr Lôn Pen y Bont. Dechreuwyd ar y gwaith ond aeth y gweithwyr oddi yno gan adael cônau yno gryn amser yn ôl - atgoffa Gwynedd.

Soniodd Len Jones am yr holl ddwyn gwliau sy'n digwydd, gan bod pris *scrap* mor uchel.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4ydd o Ragfyr.

* * *

Cyfarfod 4ydd o Ragfyr.

Offrymwyd gweddi gan Richard Llwyd Jones.

Yr Heddlu

Croesawyd tri Heddwys gan y Cadeirydd: Y Rheolwyr Rhawd Phil Kennedy a Gethin Wyn Jones, a'r Swyddog Cefnogi Cymuned Joanna Clarke. Llongyfarchwyd Joanna ar ei phriodas gan ddymuno'n dda iddi.

Cafwyd cyflwyniad manwl gan y Swyddogion ar beth sy'n digwydd yn yr ardal a beth yw eu bwriad i'r dyfodol. Gwahoddwyd cwestiynnau a chafwyd trafodaeth adeiladol ar faterion o fandaliaeth, camymddwyn, dwyn ac yfed dan oed. Y ffaith a amlygwyd dro ar ôl tro oedd ei bod yn angenrheidiol i'r cyhoedd ffonio'r Heddlu i adrodd am ddrwgweithred yn lle dibynnu ar eu Cyngorydd i wneud ar eu rhan. Nid oes raid, bellach, datgelu enw dros y ffôn. Mae'r Heddlu wedi dechrau ffurfio Paneli Cymdogol, mae panel yn bodoli ym Methel a chafwyd cyfarfod cychwynnol ym Mhenisa'rwaun. Bwriedir hefyd gosod blychau cwyno yn y pentrefi (mae un yn Llyfrgell Deiniolen eisioes).

Cofnodion Tachwedd

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Materion o'r cofnodion

Derbyniwyd cofnodion Cynhadledd 'Un Llais'. Llythyr Prifffyrdd Gwynedd yn sicrhau y bydd y gwaith ffos yn Lôn Pen y Bont, Deiniolen, wedi ei orffen cyn y Nadolig.

Gohebiaethau eraill

Gofynnwyd i Wynedd osod arwydd ar ben y llwybr ym mynedfa Parc Carafannau Snowdon View.

Cyfyngderau Cynllunio a'u heffaith ar nifer plant yn yr ysgolion

(Cynllun unedol Gwynedd / Tai Fforddiadwy). Trafodwyd hyn yn helaeth ac yn fanwl. Penderfynwyd gwrthod y ddogfen oherwydd ei effaith andwyol ar amgylchedd a hinsawdd ein cymdeithasau unigol ac ar addasrwydd y partneriaethau sy'n cael eu cynnig.

Cynllunio

Derbyniwyd deg cais yn ystod y mis, caniatwyd pump a gwrthodwyd un gan Wynedd. Penderfynwyd cyflwyno sylwadau ar y datblygiadau a fwriedir yn Lôn Plas, Rhiwlas - ni fydd yr adeiladau yn gweddu i'r ardal, mae eu cynllun yn anaddas. Hefyd bydd y ceir sy'n parcio ar y tir yma ar hyn o bryd yn cael eu gorfodi i ochr y ffordd gul ac yn achosi anhawsterau trafniadaeth.

Adroddiadau

Carthffosiaeth yn parhau i lifo i ffordd Trem Eilian, Brynrefail. Mae plant yn gorfod cerdded trwy bob math o fudreddi ar eu ffordd i'r ysgol. Penderfynwyd pwyso ar Dŵr Cymru eto i ddatrys hyn fel mater o flaenoriaeth ac hefyd adrodd i Mr Alan Winston, Asiant yr Amgylchedd, Parc Menai.

Gors Bach - mae gwter wedi cau yno eto a dŵr yn llifo i mewn i'r cwt - llythyr i'r Adran Briffyrdd.

Teithwyr Chwael Fachell. Yr oeddynt i fod i adael y safle erbyn y 7ed o Dachwedd. Penderfynwyd ysgrifennu at Mrs Dilys Phillips, Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd, i ddatgan siom nad oedd yr orfodaeth wedi gweithio, hyd yn oed ar ôl y profiad a gafwyd ym Marchlyn.

Llongyfarchwyd Richard Ll. Jones ar ennill Cadair Eisteddfod Llanaelhaearn.

Cyfarfod Nesaf

Gan bod dydd Mawrth cyntaf Ionawr yn ddydd calan, cyhelir y cyfarfod nesaf ar yr 8ed.

**Cefnogwch ein
hysbysebwy**

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Ifor a Margaret

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

ORIAU AGOR
6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)
10 a.m.-2pm
(Diwrnod Nadolig)



**CYFARCHION
NADOLIG
BETHEL**

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn*

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

Offer i'w logi ar gyfer:

- tyllu *footings*
 - clirio gerddi
 - neu unrhyw waith clirio safleoedd
- Hefyd: **Lle i wagio sbwriel inert a Hardcore** ar werth



Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu **(07775) 638620**

ceir cymru
BETHEL
(01248) 670451

www.ceircymru.com

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 18 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2008 i ddarlennwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd. **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

**NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
A STAFF**

SIOP TREFLYN

BETHEL

Ffôn: (01248) 670106



Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



CYFLENWYR PORTHIAN
IDRIS MORRIS

**BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO**

**Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439**



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

DIOLCH. Dymuna Goronwy Jones, Tan y Cae, ddiolch o galon i'r teulu, cymdlogion a chyfeillion am y cardiau, yr ymweliadau a'r dymuniadau da yn dilyn ei ymweliad â'r ysbyty yn ddiweddar. **NEWID AELWYD.** Erbyn hyn mae Mrs Olga Davies, 10 Tan y Cae, wedi ymgartrefu gyda'i merch yn Kettering. Bu Mrs Davies yn hynod o gefnogol i amryw o weithgareddau yn y pentref. Pob dymuniad da iddi yn ei chartref newydd.

CLWB BRO BETHEL. Gwesty'r Fictoria, Llanberis, oedd y man cyfarfod y mis yma a braf oedd cael gwledda ymysg ein gilydd. Yn dilyn gair o weddi gan y Parchedig Marcus Wyn Robinson ar y cychwyn, mwynhaodd pawb ginio Nadolig blasus iawn. Anfonwyd cofion at Goronwy Jones, Llywydd y Clwb, a nifer o rai eraill oedd yn methu â bod yn bresennol. Diolchwyd yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd tuag at y raffl a diolchwyd hefyd i Gwyneth Williams ac Eunice Roberts am yr holl drefniadau. Bydd y cyfarfod nesaf ar 8 Ionawr yn Festri Bethel. **CAPEL Y CYSEGR.** Cynhelir Gwasanaeth Cymun fel arfer ar fore'r Nadolig am 10.00 o'r gloch dan ofal y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Croeso cynnes iawn i unrhyw un droi i mewn i gydaddoli.

YSGOL BETHEL. Rydym yn croesawu Mrs Kelly Tugwell Williams i'r ysgol fel Cymhorthydd Gofal yn y dobarth Meithrin a Mrs Thelma Griffith sydd yn Gymhorthydd pum awr yr wythnos yn yr Adran Iau.

Croesewir Mrs Anne Elis yn ôl atom am naw mis. Bydd Mrs Elis yn dysgu dosbarth Elidir am .5 o'r wythnos ynghyd â Mr Parry.

Daeth Angharad Price ac Enrys Roberts, cyn-ddisgyblion, ar brofiad gwaith o Ysgol Brynrefail y tymor hwn. Cawsant wythnos fuddiol iawn ac roedd y ddwy yn hynod o weithgar. Diolch yn fawr iddyn nhw am eu gwith caled.

Mae Miss April Kyle, myfyrwraig o Goleg Menai ar brofiad gwaith am ddau ddiwrnod bob wythnos yn nosbarth Miss Hebenstreit. Mae Miss Kyle yn dilyn cwrs Gofal Plant ac Addysg Lefel 2.

Mae Mr Rhodri Gwyn Jones, sy'n fyfyrwr trydedd flwyddyn yn y

Brifysgol, ar brofiad ysgol yn nosbarth Mrs Bethan Griffith. Pob lwc iddo ar gyfer y dyfodol a diolch iddo am ei ymroddiad i'r ysgol.

Clwb Plant Bethel. Mae Clwb Plant Bethel yn mynd o nerth i nerth. Yn ystod gwyliau'r haf penodwyd dwy aelod arall o staff rhan amser i weithio yn y clwb: Kerry Roberts a Gwenan Parry. Mae'r clwb wedi cael ei gofrestru gan y CSSIW bellach. Mae ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 2.50-6.00. Diolch i staff y clwb am eu gwaith caled a'u hymroddiad a'r gofal arbennig mae'r plant yn ei dderbyn ganddynt. Rhif ffôn y clwb os ydych yn dymuno cofrestru eich plentyn: 07765799838.

Gweithgareddau ac Ymweliadau. Bu Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad preswyl i Lan Llyn o dan oruchwyliath Mr Dylan Parry, Mrs Nia Gwawr Elwyn a Mrs Julie Bragan. Pleser oedd cael cwmni'r plant - roedd eu hymddygiad yn wych. Gwirfoddolodd Mr Steven Jones (tad Elan) i fynychu'r cwrs gyda'r staff, diolch iddo am ei amser.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 gymryd rhan mewn gweithdy cerdd gydag aelodau o Ensemble Cymru. Yn dilyn hyn cawsant gyfle i wyllo perfformiad gwych o'r cyngerdd i gyd-fynd â'r gweithdy yn Theatr Seilo.

Cafodd yr Adran Iau i gyd fynd i Cae Gors, Rhosgadfan, i gydweithio ag Angharad Tomos mewn gweithdy iaith.

Daeth Mr Dilwyn Williams o'r Archifdy i'r ysgol i ddangos gwahanol arteffactau o'r Ail Ryfel Byd.

Daeth Mr Gethin Jones, y plismon cymunedol, i'r ysgol i gael sgwrs efo'r plant.

Cafodd Blwyddyn 5 a 6 gyfle i wrando ar y storiwr, Michael Harvey, a chael cyfle i gyd-ysgrifennu stori efo'r awdur. Yn ogystal, fe ddaeth Martin Daws at Flwyddyn 5 a 6 i greu cerdd rap. Cafodd y plant ddiwrnod hwyliog iawn yn ei gwmni ac erbyn diwedd y dydd roedd cryno ddisg wych wedi ei chynhyrchu, gyda llais pob plentyn yn y dosbarth i'w glywed yn glir arni.

Daeth Mr Alun Roberts atom ddydd Mercher, 24 Hydref, i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando

ar ei straeon. Aeth y casgliad eleni tuag at Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd, yn ôl dymuniad y Cyngor Ysgol – casglwyd cyfanswm o £120.00. Daeth Mrs Nan Humphreys, sydd yn athrawes ar ward y plant, i'r ysgol i dderbyn yr arian.

Mae'r ysgol wedi bod wrthi'n brysur iawn y tymor yma yn paratoi ac yn hyfforddi plant tuag at Eisteddfod Bethel. Mae Mrs Mari Williams a Miss Wendy Hebenstreit wedi bod yn hyfforddi dawnswyr disgo y Babanod a Mrs Elwyn a Mrs Griffith wedi bod yn brysur yn hyfforddi dawnswyr yr Adran Iau. Diolch yn fawr iawn i'r athrawon am eu gwaith caled. Unawith eto eleni, mae'r ysgol wedi paratoi y gwaith llenyddiaeth a'r gwaith celf tuag at yr Eisteddfod.

Cynhaliwyd Noson Gaws a Gwin/Gemwaith yn yr ysgol ar 2 Hydref. Gwnaethpwyd elw o £260.00. Llawer o ddiolch i Mrs Eirian Williams (mam Betsan, dosbarth Derbyn) a'i thîm o gynorthwyr am drefnu'r noson.

Bu'r ysgol yn cynnal gweithgareddau Plant Mewn Angen ddydd Gwener, 16 Tachwedd. Casglwyd swm o £256.55.

Unwaith eto eleni, bu disgyblion Blwyddyn 6 yn cynnal gwasanaeth wrth y Gofeb ar Sul y Cofio, 11 Tachwedd. Diolch iddynt am eu gwaith caled.

Daeth Mr Cledwyn Williams, Llanrug, i'r ysgol at ddosbarth Elidir i sôn am ei brofiadau yn yr Ail Ryfel Byd. Roedd y plant wedi mwynhau cywed ei hanesion.

Mae pob dosbarth wedi cynnal cyngor dosbarth y tymor yma ac mae cynrychiolwyr dosbarth newydd wedi eu hethol ar gyfer eleni:

Dosbarth Saron: Nathan Hughes ac Elan Jones; Dosbarth Glyder: Dewi Appleton-Davies ac Elen Ifans; Dosbarth Gwyrfai: Guto Pierce ac Alaw Prys; Dosbarth Elidir: Gethin Jones a Natalie Bragan.

Gwirfoddolwyr. Mae cymorth ein gwirfoddolwyr darllen, Mr Gwerydd Griffiths yn yr Adran Iau a Mrs Rita Dauncy yn Adran y Babanod yn amhrisiadwy. Diolch iddyn nhw am eu cyfraniad gwerthfawr.

Diolch hefyd i bawb a wirfoddolodd i helpu'r ysgol mewn amrywiol ddulliau; mae eich cyfraniad yn ein galluogi i gyfoethogi addysg y plant.

Menter a Busnes. Fel rhan o'u prosiect mentergarwch, mae dosbarth Mr Parry wedi bod yn

brysur yn cyhoeddi llyfr rysetiau ac mae'r llyfr bellach yn barod ac ar werth drwy'r ysgol. Byddai'n anrheg Nadolig gwyh i aelod o'ch teulu. Diolch i Siop Treflyn, Mr Steven Jones (artist lleol), Mr Huw Roberts (Huw Saer), Cwmni Da a Mrs Margaret Davies, Ynys Môn (Cwmni Caws Gorau Glas) am noddi y fenter.

Chwaraeon. Mae Blwyddyn 3 a 4 wedi cael cyfle y tymor hwn i fynd i'r Ganolfan Hamdden i gael gwersi gymnasteg a gwersi nofio.

Cynigiwyd gweithgareddau dawnswyr yn y sesiynau Campau'r Ddraig a Dreigiau Bach y tymor hwn. Diolch i Mrs Williams, Miss Hebenstreit, Mrs Elwyn ac i Mrs Griffith am eu gwaith caled.

Yr Urdd. Bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yng ngala Nofio yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau iddynt am gystadlu mor wych ac i Gethin, Bl.6., am lwyddo i fynd i'r



Gethin Jones

rownd derfynol yn Abertawe ym mis Ionawr 2008. Mae Gethin yn ymarfer ei nofio wyth gwaith yr wythnos gan gynnwys tri sesiwn bore am 6.00 o'r gloch yng nhlwb nofio Caernarfon! Cafodd gyfle yn ddiweddar i fynychu gala yn Sheffield ac fe gafodd lwyddiant arbennig yno. Braff yw gweld disgybl o'r ysgol yn llwyddo yn genedlaethol. Gethin yw'r trydydd bachgen cyflymaf drwy Gymru gyfan am nofio dull cefn 50 metr. Da iawn chdi, wir. Mae'r holl ymarfer a'r codi cynnar yn talu. Dal ati, Gethin.

YM MEDYDD SIWAN HAF Heddiw daeth cawod Siwan – i fwrw dros yfory baban.

I antur twf y gwantan, rhoed y glaw gan ysbryd glân.

LLUNIAU EISTEDDFOD BETHEL



Gwion Wyn – enillydd y Tlws Llefaru Cynradd a Sion Alun – enillydd y Tlws Lleisiol.



Aelodau buddugol tîm Penrhosgarnedd gyda'r swyddogion rhanbarth, Y Llywydd: Bethanne Williams; Ysgrifennydd: Mary Roberts a'r Trysorydd: Meirwen Lloyd, y tair o gangen Llanrug.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd noson Cwis Cenedlaethol llwyddiannus iawn eto eleni gan Ferched y Wawr yn y Stables, Llanwnda, nos Wener, 23 Tachwedd. Daeth nifer dda iawn o'r aelodau yno i fwynhau pryd blasus a bu tipyn o grafu pen wrth geisio ateb rhai o'r cwestiynau.

Tim cangen Merched y Wawr Penrhosgarnedd oedd yn fuddugol yn rhanbarth Arfon, gyda changen Bangor yn ail a changhennau Bethel, Y Groeslon a Chlwb Gwawr Dinas yn rhannu'r trydydd safle.

Diolchodd Bethanne i bawb am eu cafnogaeth ac i Westy'r Stables am eu croeso.



Cystadleuwyr ifanc yr eisteddfod.



Ceri Griffith, enillydd y Tlws Cerdd a'r Tlws Llefaru; Dylan Coles, enillydd y Tlws Celf, a Siôn Elwyn, enillydd y Tlws offerynnol a'r Tlws Piano.



Iona Speake – enillydd y Tlws Llên Uwchradd a Natalie Bragan – y Tlws Llên Cynradd, ynghyd â'r Orsedd.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun

Y SAMARIAID
(01248) 674985

Trefniadaeth Ysgolion Cynradd Gwynedd

Mae Bwrdd Gweithredol Cyngor Gwynedd wedi rhoi caniatâd i swyddogion ymgynghori ar newidiadau sylweddol i drefniadaeth ysgolion cynradd y sir. Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol os am gynnal y safon addysgu uchel sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd, a sicrhau fod holl blant Gwynedd yn derbyn y cyfleon gorau bosib waeth lle mae nhw'n byw.

Yn dilyn penderfyniad unfrydol Bwrdd Gweithredol trawsbleidiol Cyngor Gwynedd, bydd gan holl Gynghorwyr y Sir y cyfle yn awr i ystyried yr adroddiad yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn ar 13 Rhagfyr. Os bydd yr adroddiad yn cael ei mabwysiadu, bydd cyfnod o ymgynghori ar y cynigion manwl yn cychwyn yn Ionawr 2008.

Mae'r adroddiad yn argymhell sefydlu 3 ysgol ardal ar safleoedd sy'n bodoli'n barod, adeiladu 8 ysgol ardal newydd ar safleoedd newydd, sefydlu 18 ysgol ffederal yn seiliedig ar safle 55 o ysgolion presennol, a gadael 19 ysgol fel ag y mae nhw. Pe bai'r argymhellion yn cael eu mabwysiadu, byddai gan Gwynedd gyfanswm o 48 ysgol wedi eu lleoli ar 85 safle, yn hytrach na'r 106 safle presennol.

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd 70% o blant ysgolion cynradd Gwynedd yn elwa o gynnydd yn nyranid y cyllid sy'n cael ei fuddsoddi yn eu haddysg. Ar yr un pryd, bydd £30 miliwn yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglen fuddsoddiad mewn 8 ysgol ardal newydd.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Richard Parry Hughes:

'Rydym yn hyderus y gall y cynigion sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad greu model a fydd yn llwyddo i gwrdd â gofynion holl blant ysgolion cynradd Gwynedd a chymunedau'r sir yn y 21fed Ganrif.

'Mae Gwynedd yn anelu i gadw cymaint o ysgolion cymunedol cynaliadwy a phosib ar agor, ac ar yr un pryd yn sicrhau fod yr adnoddau prin sydd ar gael gan y Cyngor yn cael eu buddsoddi yn addysg plant yn hytrach nag ar lefydd gweigion mewn ysgolion ac adeiladau anaddas fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

'Yn wahanol i siroedd eraill, nid ydym yn ystyried cau pob ysgol gyda llai na rhif penodol o ddisgyblion. Yn wir, byddai'r

cynigion yr ydym yn eu hystyried yn golygu y byddai nifer o ysgolion bach gwledig yn aros ar agor.

'Fel Bwrdd, rydym wedi gwrando ar yr awgrymiadau adeiladol sydd wedi eu rhoi gerbron gan Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc y Cyngor. Rydym wedi gofyn i swyddogion gomisiynu astudiaeth adrawiad ieithyddol ac i lunio cynllun ymgynghori manwl a fydd yn rhoi amser i drafodaeth gyhoeddus ar y strategaeth a'r cynigion unigol.

'Rwy'n croesawu'r ffaith fod gennym ni, am y tro cyntaf erioed, gynigion cadarn ar y ffordd ymlaen, a fod y cynigion hyn eisoes wedi ysgogi trafodaeth iach yn ystod y cam cynnar hwn o'r broses.

'Os bydd yr adroddiad yn cael ei mabwysiadu gan y Cyngor Llawn, byddwn yn symud i gyfnod o ymgynghori ar y cynlluniau hyn ar lefel leol. Yn ystod y cam allweddol hwn o'r broses, bydd cymunedau lleol yn cael y cyfle i fynegi eu barn am yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer eu hardal hwy, ac i gyfrannu'n llawn i'r broses o ddarparu strwythur newydd a chynaliadwy ar gyfer ysgolion cynradd Gwynedd.'

Ychwanegodd Cyfarwyddwr Strategol Datblygu Cyngor Gwynedd - Iwan Trefor Jones:

'Yn syml, nid yw strwythur presennol ysgolion cynradd Gwynedd yn gynaliadwy os ydym am barhau i ddarparu'r addysg o'r safon uchaf bosib i bob disgybl ysgol gynradd yng Ngwynedd am ddegawdau i ddod.

'Mae nifer disgyblion wedi gostwng 9% crs i ardal bresennol Cyngor Gwynedd gael ei ffurfio yn 1996. Rhagwelir cwymp pellach o 9% yn ystod y degawd nesaf. O ganlyniad, bydd yr arian y mae Gwynedd yn ei dderbyn i'w wario ar addysg gynradd hefyd yn disgyn.

'Ar yr un pryd, mae Gwynedd yn gwario £850,000 ar y 2,400 o lefydd gweigion mewn ysgolion, a disgwylir i'r ffigwr hwn godi i £1.2 miliwn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

'Os bydd y cynigion yn cael eu mabwysiadu, bydd £30 miliwn yn cael ei fuddsoddi i ddatblygu 8 ysgol ardal newydd, tra bydd arian pellach sy'n cael ei wario ar adeiladau anaddas ar hyn o bryd yn cael ei wario ar gynnal a gwella adeiladau presennol i safon uchel.'

Annog Rhieni Gwynedd i fod yn Ofalus Dros y Nadolig

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn gofyn i rieni'r Sir feddwl ddwywaith cyn prynu 'mini-moto' (beic modur bychan iawn) i'w plant y Nadolig hwn.

Rhaid cofio nad yw'r peiriannau, sydd yn atgynhyrchu o feiciau modur go iawn, wedi eu cynllunio i gael eu defnyddio ar ffyrdd nac ar lwybrau troed. Efallai nad yw llawer o rieni sydd yn ystyried prynu 'mini-moto' fel anrheg yn sylweddol fod rhaid i'r 'mini-moto' gael ei gofrestru a'i drethu, a bod gyda thystysgrif MOT cyn ei fod yn gyfreithiol i fynd ar y ffordd. Dylid cofio hefyd fod yn rhaid i'r gyrrwr fod dros 16 mlwydd oed, gyda yswiriant, ac fod rhaid iddynt wisgo helmed sydd wedi ei chymeradwyo.

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd yn rhybuddio rhieni eu bod angen bod yn glir o'r ffeithiau cyn prynu un o'r beiciau modur bychan yma fel anrheg.

Dywedodd Geraint Jones, Cydlynnydd Ymddygiad Gwrth Gymdeithasol Gwynedd:

'Nid tegau ydy 'mini-motos'. Maent yn cael eu cyfrif fel cerbydau yn llygaid y gyfraith, ac rydym yn awgrymu'n gryf fod pobl yn ymwybodol o'r gyfraith cyn eu bod yn ystyried prynu un.

'Tra bod rhieni o dan bwysau gan eu plant i brynu un o'r beiciau yma y Nadolig yma, mae angen i rieni sylweddoli beth yw'r ddeddf sy'n ymwneud â'r peiriannau a'r niwsans y gallant eu hachosi i'r gymuned pan maent yn cael eu gyrru yn anghyfreithlon mewn mannau cyhoeddus.'

Mae'n bosib y bydd mini-motos sydd yn cael eu defnyddio yn anghyfreithlon yn cael eu meddiannu, a gellir dwyn cyhuddiad troseddol yn eu herbyn.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru y pwerau i feddiannu cerbydau sydd wedi eu defnyddio yn anghyfreithlon oddi ar y ffordd, a bydd rhaid i'r perchnogion dalu dros £100 a'r ffioedd storio i'w cael yn ôl. Bydd beiciau'r rhai sy'n troseddu'n aml yn cael eu dinistrio. Os yw gyrrwr sydd eisoes wedi ei rybuddio yn reidio beic arall, gall y beic hwnnw gael ei feddiannu gan yr heddlu hefyd.

Ychwanegodd Geraint Jones:

'Nid yn unig y gellir dod â chyhuddiad troseddol yn erbyn y gyrrwr, ond os ydynt o dan 16 mlwydd oed, gellir erlyn eu rhieni. Rydym yn erfyn ar rieni i ystyried yr holl bwyntiau hyn, neu fel arall, mae'n bosib iawn y byddant yn torri'r gyfraith.'

Gofal Gyda'r Gwastraff Dros y 'Dolig

Gyda chyfnod y Nadolig yn agosáu, mae'r rhan fwyaf ohonom yn prynu mwy o fwyd, diod ac anrhegion na'r arfer, ac yn naturiol, mae hyn yn arwain at fwy o wastraff.

Dyma pam fod Cyngor Gwynedd yn annog trigolion y sir i wneud defnydd o'r cyfleusterau ailgylchu a chompostio sydd ar gael yng Ngwynedd, a gwneud yr ymdrech i sicrhau fod llai o'u gwatrff yn cael ei waredu trwy dirlenwi.

Dywedodd y Cynghorydd Emyr Pugh, sy'n arwain ar faterion Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar Gyngor Gwynedd:

'Mae trigolion Gwynedd yn gwneud defnydd da o'r cyfleusterau ailgylchu sydd ar gael trwy'r sir, ac rydym yn gobeithio y byddant yn parhau i wneud hynny dros gyfnod y Nadolig er mwyn sicrhau lleihad yn y gwastraff sy'n cael ei anfon i dirlenwi.'

Mae Uned Ailgylchu Cyngor Gwynedd yn cynnig cyngor am sut i waredu gwastraff dros yr Ŵyl, ac ailgylchu mwy o lawer,

gan annog pobl Gwynedd i:

- ofyn am focsys glas ailgylchu ychwanegol
- manteisio ar y cynllun casglu cardiau Nadolig mewn ysgolion cynradd a changhennau Tesco/WHS
- ailgylchu coed Nadolig go-iawn gyda'r bin brown neu mewn canolfan ailgylchu
- gwneud defnydd o'r canolfannau ailgylchu gan ailgylchu pethau fel cardfwrdd yno.

Ychwanegodd Gwenllian Roberts, Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd:

'Fe ŵyr pawb fod y Nadolig yn gyfnod lle bydd mwy o wastraff nag arfer yn cael ei gynhyrchu oherwydd anrhegion a phartïon. Mae yna le i ni felly i wneud mwy i ailgylchu mwy o'r gwastraff gan ddechrau ein hadduned Blwyddyn Newydd yn gynt eleni.'

Am fwy o wybodaeth am drefniadau ailgylchu a gwastraff dros y Nadolig, cysylltwch â Desg Gymorth Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd: (01286) 679872.



DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd Ffôn: (872133)

DYMUNWN Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i holl drigolion Deiniolen, Clwt y Bont, Dinorwig a holl ddarlennwyr yr Eco.

Dymuniadau gorau i bawb sy'n wael ar hyn o bryd, gobeithio y caiff pawb wellhad buan.

DYMUNA Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Oleu, Nadolig Llawen i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Dros gyfnod Tymor y Nadolig bydd y Gwasanaethau yn parhau fel a ganlyn:

Rhagfyr 23:

8.30 y bore: Cymun Bendigaid
4.30 y pñawn: Carolau Nadolig.

Rhagfyr 25: Dydd Nadolig Crist

8.30 y bore: Cymun Bendigaid

Nos Iau, Rhagfyr 27

Cyngerdd gan Gôr LL55 Llanberis

Rhagfyr 30

5.30 yr hwyr: Gosber

Croeso cynnes i bawb ddod i'r Gwasanaethau ac i'r Cyngerdd.

YSGOL FEITHRIN. Cofrestru Blwyddyn 2008/09. Os ydych eisiau cofrestru eich plentyn i ddechrau yn yr Ysgol Feithrin yn ystod 2008/09 mae'r cylch wedi trefnu dau sesiwn arbennig yn yr Ysgol Feithrin ar gyfer derbyn enwau. Rydym fel pwyllgor yn ymwybodol fod nifer o rieni y pentref yn debygol o fod eisiau manteisio o gael gyrru eu plant i'r cylch meithrin y flwyddyn yma. Oherwydd hyn, mae'n hynod

bwysig eich bod yn dod i'r sesiynau cofrestru a gynhelir ar 18 a 25 Ionawr, rhwng 11.30 a 1.00 o'r gloch. Os na allwch fod yn bresennol, cysylltwch gyda'r Arweinydd, Mrs Gwyneth Jones, ar 07969 635944.

CYLCH TI A FI. Mae'r Ysgol Feithrin wedi ailgychwyn y Cylch Ti a Fi i rieni a'u plant, o 0-4 mlwydd oed. Cynhelir y sesiynau yma ar brynhawn Llun o 1.15 hyd 2.45 o'r gloch. Mae'n gyfle gwych i gyflwyno eich plentyn i'r Cylch cyn iddynt fynychu'r Ysgol Feithrin yn 2½ oed a chyfle i chwithau gael sgwrs a phaned gyda rhieni eraill.

Bydd yr Ysgol Feithrin yn cau am ŵyl y Nadolig ar ddydd Gwener, 21 Rhagfyr, ac yn ailagor ar ddydd Mawrth, 8 Ionawr 2008.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi a diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y tymor diwethaf.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â theulu'r ddiweddar, Betty Lloyd Roberts, priod y diweddar John Peris Roberts, Bro Deiniol (gynt o Faes Eilian, Dinorwig). Bu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 13 Rhagfyr ar ôl blynyddoedd o waeledd.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

MARWOLAETH. Ar 16 Tachwedd, daeth y newydd drwg i'r ardal am farwolaeth Mrs Gillian Brown, Fferm Blue Peris, yn 75 mlwydd oed. Bu'n wael am flynyddoedd lawer ac yn yr ysbyty am fisoedd. Cafodd gystudd blin iawn.

Cyn ei gwaeledd bu Mrs Brown yn gweithio yn y fferyllfa yn Ysbyty Môn ac Arfon, Ysbyty Dewi Sant ac, yn ddiweddarach, yn Ysbyty Gwynedd.

Cymerwyd y gwasanaeth agoriadol gan y Parchedig John Pritchard yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen, ar 1 Rhagfyr a chymerwyd y gwasanaeth claddu gan y Parchedig Martin Lloyd, Llandudno.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Sally, ei hunig ferch, yn ei phrofedigaeth a hefyd at Josua, ei nai. Gobeithio y bu iddynt gael nerth ac iechyd yn ystod y dyddiau tywyll yma i gario ymlaen hefo'i bywyd.

CYFARCHION NADOLIG. Ni fydd

Mr David Lloyd Hughes, Tegfan, 2 Maes Eilian, yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond hoffai fanteisio ar y cyfle i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu ac i'w ffrindiau oll.

COFION NADOLIG. Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref, a dymunwn well blwyddyn i'r rhai fu mewn ysbyty neu yn cwyno gartref yn ystod y flwyddyn hon. Bendithion y Tymor i bawb.

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.



www.fframia.com

**DODREFN
PERKINS**

SÊLY GAELAF

Gwasanaeth
Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10 a.m.
Dydd Iau, Rhagfyr 27

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr
o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

PLAID CYMRU. Cafodd Cangen Plaid Cymru Noson Gyri lwyddiannus eithriadol yn ddiweddar. Gwnaed elw o dros £400. Diolch i bawb fu'n helpu.

Etholwyd y Swyddogion canlynol: *Cadeirydd*: Eurig Wyn; *Ysgrifennydd*: Rob Jones; *Ysgrifennydd Aelodaeth*: Beryl Jones; *Trysorydd*: John Gwynedd.

Ymhlith atyniadau'r flwyddyn fydd Taith Gerdded, Noson yn Nhafarn y Pentref, Noson Eidalaid a Barbeciw.

Unrhyw un sydd am ymaelodi, cysyllter â Beryl Jones, Dôl y Coed (650345).

CLWB 300. Enillwyr y clwb am fis Tachedd oedd: £40: Mr Ronald Williams, 8 Bro Waen; £25: Mrs Mererid Llwyd, 15 Eilian; £10: Mr D. Martin, Tegfan.

GWELLHAD BUAN. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i'n meddyg teulu, Doctor Huw Roberts, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gobowen.

Hefyd dymuwn wellhad buan i loan, mab bach Eleri a Derek, Stad Tŷ Hen, wedi iddo fod yn Ysbyty Gwynedd.

APÊL DAER. Ni, ddarllenwyr yr *Eco* yn y Waunfawr fydd yn gyfrifol am blygu'r rhifyn nesaf o'r *Eco*. Byddwn yn ymgymryd â'r gwaith yn Ffestri Capel y Waun nos lau, 24 Ionawr. Bwriadwn gychwyn ar y

gwaith tua 5.00 o'r gloch. Taer ofynnir am bobl i ddod i'n helpu gyda'r gwaith. Diolch yn fawr.

PEN-BLWYDD yn 10 OED. Daeth y gynulleidfa allan o Ganolfan y Pentref nos Wener, 16 Tachwedd, yn falch ac yn diolch eu bod wedi cael rhannu eu parti pen-blwydd yn ddeg oed gyda Chôr y Pentref a'u gwesteion. Roedd yn arbennig o dda.

DYMUNIADAU'R WYL. Gan na fydd Rol Williams, Ardwyn, yn anfon cardiau Nadolig eleni, dymuna wyliau llawen a Blwyddyn Newydd lewyrchus i'w deulu a'i gyfeillion.

DYMUNWN Nadolig Dedwydd i bawb, gan gofio am y rhai sydd yn gaeth i'w cartref, a'r rhai sydd mewn cartrefi preswyl.

LLONGYFARCHIADAU i'r grŵp Sibrydion, ar ennill gwobr Y Grŵp Cymraeg Gorau yn noson wobrwyo'r Ffatri Bop yn ystod y mis diwethaf. Diddorol hefyd oedd gwrandio ar Osian a Meilir yn sgwrsio gyda Owen Powell ar ei raglen ar C2, ac yn egluro sut yr oeddent yn mynd ati i gyfansoddi'r alawon a'r geiriau ar gyfer y grŵp.

DIOLCH. Dymuna Mr Don Roberts, Sŵn y Gwynt, ddiolch am yr holl ddymuniadau da am wellhad buan a gafodd a'r gofal mae wedi ei dderbyn ar ôl cael triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

FFAIR NADOLIG. Diolch i weithwyr y stondinau, hyrwyddwyr y rafflau, arweinwyr y gemau, y rhoddwyr a'r nifer a ddaeth i'w cefnogi, roedd elw o £330 ar ôl Ffair Nadolig eleni. Bydd yr elw yn cynorthwyo i gwrdd â chostau rhedeg Y Ganolfan dros y gaeaf ac felly yn ein galluogi i beidio â chodi ffi ar fudiadau'r pentref. Diolch i bawb.

CAPEL. Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Ionawr 2008:

6: 2.00 Parch Dafydd Hughes

13: 11.00 Ysgol Sul

20: 11.00 Ysgol Sul

27: 11.00 Ysgol Sul

2.00 Parch Ronald Williams.

Llywydd y Mis ar gyfer cysylltiadau'r eglwys ac ar gyfer Dyddiadur y Ganolfan yw Huw Ceiriog: (01286) 673781.

LLUNIAU O'R GORFFENNOL. Diolch i Maureen Griffith (Llyngele gynt, Waunfawr rŵan) am y lluniau o'r Sioe Cynnyrch Gardd a'r Daith Gerdded Noddedig a fu yn 1979. Roedd yn amlwg fod hyd gwallt yn bwysig iawn adeg hynny!

YSGOL CAEATHRO. Gyda'r holl sôn yn ddiweddar am gau ysgolion pentref yng Ngwynedd, a oes gan ddarllenwyr luniau a chreiriau o Ysgol Caeathro y gellir eu harddangos yng nghanolfan y Capel?

CYFARCHION TYMHOROL.

Dymuna tîm yr *Eco* yn y pentref Nadolig Llawen iawn i bawb yng Nghaeathro a'r cylch, a'n darllenwyr y tu hwnt. Gobeithwn y byddwch yn parhau i gefnogi'r *Eco* trwy'r flwyddyn newydd efo'ch straeon a'ch gwybodaeth leol.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yn Y Ganolfan Waunfawr am 7.30 yh ar 7fed o Dachwedd

Roedd llythyrau i law gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â llinellau melyn mewn lleoliadau yn y Waunfawr a Chaeathro a phenderfynwyd cefnogi'r cynigion.

Trafodwyd cyflwr y llochesau bws, y fynwent a llwybrau troed y pentref – nodwyd fod eu cyflwr yn foddhaol. Trafodwyd cyflwr y lôn feics, sef Lôn Gwyrfa, a nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi llunio cynllun i wella'r llwybr. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chyflwr Cae Chwarae, Caeathro a nodwyd fod angen sylw i'r ffens.

Roedd 1 cais cynllunio ôl-weithredol i law, a mynegwyd gwrthwyncbiad i'r cais. Roedd 3 chais cynllunio arall wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Derbyniwyd mantolen y Cyngor am y flwyddyn 2006/07 a nodwyd ei bod yn gywir.

Mynegwyd ein diolch i Mrs Judith Thomas-Jones, cyn-Glerc y Cyngor, am ei baratoi.

Derbyniwyd Mantolen y Cyngor am y 6 mis cyntaf eleni, a nodwyd ei bod yn gywir.

Daeth nifer o geisiadau am Roddion gerbron, a bu i'r Cyngor benderfynu rhoi rhodd i'r mwyafrif o'r ceisiadau.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:

- Angen holi ymhellach ynglŷn â symud y blwch post sydd gerbron yr hen siop (Siop y Pentref), a'i ail leoli ar safle arall yng nghanol y pentref.
- Siwrne Saff i ddod yn ôl i Gaeathro yn dilyn cael ailwynebu'r ffordd.
- Angen cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â gordyfiant mewn ardaloedd yng Nghaeathro sydd yn rhan o gytundeb blyneddol.
- Angen arwyddion 'Ysgol' yn Waunfawr.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

YR YSGOL GYMUNED – Ymgyrch Plentyn y Nadolig



Yr holl focsys a gasglwyd gan y plant ar gyfer Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn barod i fynd.



Rhai o blant Ysgol Waunfawr yn cario'r bocsys i'r fan.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff



Cyfarchion
Nadolig

WAUNFAWR CAEATHRO



*Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda
oddi wrth barwb yn*

GAREJ GWALIA



CAEATHRO

Ffôn: 673096



Gwasanaeth

Torri Lawr 24 awr

M.O.T. * Trwsio Ceir



Ar agor 7 a.m. – 10 p.m. bob dydd. Bwyd,
diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayb

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH CARMEN A PHAWB
YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

**Dewch gyda'r trê'n stêm
o Gaernarfon ac aros
AM GINIO DA!**

Rydym yn syrffio bwyd blasus drwy'r dydd,
bob dydd o 11 am – 8.30 pm

A 'does dim rhaid dod ar y trê'n!
Cofiwch... **bob dydd Sul...**
cinio traddodiadol £6.25
Bwyd cartref blasus
o gynnyrch lleol



Mae
Lleufer, Nelma,
Tegid a Sam Pritchard



**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR**

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod
y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll.

- ★ O LEIAF 60 O WELAU MEWN STOC
- ★ 5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
- ★ 40 O '3-PIECE SUITES'



**NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA**



**i holl gyfeillion yr Antur ym
mro'r Eco**

Antur Waunfawr

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth barwb yn

WELDPAR
CYMRU WALES

**CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720**



Mae pawb yn

SIOP SGLODION Y PENTREF

THE VILLAGE CHIPPY

WAUNFAWR, Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i barwb yn y pentref



*Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth barwb yn*

**SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR**

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
GOLEUADAU ARGYFWNG
LARWM TÂN, a llawer mwy
i'w gweld yn ein swyddfa.



Ailgylchu!

*Dyna i chwi fusnas - y busnas ailgylchu 'ma!
Paham gwahaniaethu rhwng pobl hefo'r gwasanaeth
a gynigir gan y Cyngor Sir?*

Y mae'n hen beth! Y busnas ailgylchu 'ma! Does dim byd sy'n newydd yn y greadigaeth. Ni sy'n meddwl ei fod o! Y mae ein coedwigoedd wedi ei gweld hi ers tro byd, a'r dail o'u heiddynt drwy gymorth pryfed genwair wedi eu hailgylchu'n ddiwahaniaeth.

Yn ddiweddar, bu i'r Wasg gondemnio'n hallt yr arfer o ddanfôn sbwriel er mwyn ei ailgylchu yng ngwledydd Brasil, Tseina a'r India. Ydyw, ydyw, y mae'n iawn mynd ar wyliau yno ond ni allwch chwi ddanfôn sbwriel yno! Rhyfedd meddwl bod Arfon, a'n cwr ni o hen sir Gaernarfon, wedi danfôn llechi i'r byd benbaladr, a hynny am flynyddoedd lawer heb gythraul o neb yn grwnach. Busnes ydy busnes onide? Mae creu gwaith yn cadw pobol yn eu cynefin.

Mi fyddai wedi bod yn braf gweld Cymry Cymraeg yn gweithio a dygnu arni mewn safleoedd ailgylchu yma yn Eryri a Gwynedd. Dichon fod gennym ni ein chwareli segur, ein ffatrioedd gweigion, ond dyna fo, y mae ein cynghorwyr ar raddfa leol ac ehangach, yn rhy brysur yn ffraeo, heb boeni'r un tun gwag am waith i'n pobol.

Prif asgwrn y gynnen ydi'r modd y mae'r Cyngor Sir, hefo eu trethi'n codi eto mis Ebrill y flwyddyn nesaf, yn uchel eu cloch

ynghylch sut y maent wedi datrys problemau ailgylchu sbwriel! Beth, 'r andros! A dweud y gwir prin codi caead y bin sbwriel a wnaethant hyd yma. Y mae'n bryd iddynt wneud mwy na chodi'r caead!

Gyda hyn, byddwn hefo mwy fyth o fesurau Seneddol er mwyn arbed ynni a chael gwared o sbwriel, ac y mae'n argoeli'n dda mai gwledydd Prydain, gan gynnwys Cymru fel gwlad, ydyw'r gwaetha yn y byd am wastraffu deunydd crai. Bydd, mi fydd mwy fyth o bwysau arnom i wneud rhywbeth ynghylch gwastraff.

Iawn, ond dydy pawb ohonom ni, welwch chi, ar hyn o bryd, yn ardaloedd mwyaf hygrych ac anhygrych broydd *Eco'r Wyddfa* heb fod yn cael y cyfle i gyfrannu deryn oll at ailgylch. Ydynt! Ydynt! ebe'r Cyngor Sir. Nac ydynt! Nac ydynt! meddwn ninnau.

Os ydach chi'n berchen fferm, neu fwthyn di-nod ym mherfedd gwlad, neu'n byw mewn pentref ar y ffin hefo pentref arall, dyna hi'n ta-ta domino tail ceffyl brych-las arnoch chi. Y maent, mewn lleoedd o'r fath, yn gorfod byw heb y gwasanaeth casglu deunydd ar gyfer ei ailgylchu. Ac eto y maent hwythau yn drethdalwyr. Oni ddylent hwythau dderbyn yr un gwasanaeth, neu a ydynt yn ddifreintiedig?

Yn wir, mae yma gyfle i Gynghorwyr sy wedi derbyn croesau adeg etholiadau, ac yn ein cynrychioli ar y Cynghorau, fynd â'r maen i'r bwlch, yn enwedig gyda'r annhegwch a ddigwydd. Os cynnig i un, yna cynnig i bawb, onide? Mi ddylai, mewn gwlad honedig ddemocrataidd, bod gwasanaeth casglu sbwriel ar gyfer ei ailgylchu wedi ei ddarparu ar gyfer pawb. Dyna beth y saif democratiaeth iach drosto. Dyna pam y talwn drethi, sef er mwyn gweld gweithredu gwasanaeth cyfiawn a theg i bawb, a does wahaniaeth ble y maent yn byw ynddo - ar ben Moel Eilio neu lawr gwlad yn rhanbarth Gwastad Annas.

**Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth**

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol
gan Artistiaid Lleol

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith**

**EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO**

Ffôn: (01286) 870563

Dolch am eich cefnogaeth
trwy'r flwyddyn



Cymdeithas REMAP

Mae cymdeithas o wirfoddolwyr wedi ei sefydlu yng ngogledd-orllewin Cymru ers 1998, yn arbennig i gynnig cymorth i bobol ag anableddau, gan wneud eitemau technegol yn arbennig i'r unigolyn. Mae peiriannwyr a chrefftwyr yn cydweithio yn wirfoddol gyda therapyddion a gofalwyr eraill i wneud eitemau i gynorthwyo person i ddod dros rai o'r trafferthion sydd yn codi oherwydd anabledd. Os nad oes rhywbeth ar gael o siop neu gatalog i alluogi person i wneud rhywbeth, yna mae aelodau o'r gymdeithas yn ceisio cynllunio a gwneud teclyn pwrpasol.

Mae'r gymdeithas yn awr angen mwy o waith, a hefyd mwy o wirfoddolwyr i ddatblygu ei gwasanaeth.

Dyma rai o'r prosiectau a wnaethpwyd yn y gorffennol:

1. Ar gyfer gwraig wedi colli ei golwg ac yn cael trafferth i leoli sosban ar y stôf, rhoi ffrâm bach tu ôl i'r ddau gylch poeth pellaf sydd yn derbyn y sosban yn y man cywir.

2. Ar gyfer Ysgol Hafod Lon, Pwllheli. Bachgen gydag anhawsterau dysgu yn defnyddio cadair olwyn ac yn blino â theganau ymhen ychydig ac yn tueddu i'w taflu at blant eraill. Trefnu bod pob tegau ynghlwm wrth fwrdd bychan ac mae'n hawdd rhoi'r byrddau yn sownd wrth y ddesg o flaen ei gadair.

3. Gwely arbennig, symudol, ar gyfer geneth sydd â pharlys yr ymennydd ac yn defnyddio cadair olwyn. Mae hi'n cysgu â'i hwyneb i lawr ar y gobennydd ar wely arbennig yn ei chartref. Er mwyn iddi hi a'i rhieni fynd i ffwrdd ac ymweld â'r teulu, roedd angen gwely ysgafn a fuasai'n plygu i'w roi yn y cerbyd, heb gymryd llawer o le. Defnyddiwyd pren *ply* ac mae'n plygu yn fychan a threfnus, a matres arno wedyn.

4. Hyd yma, y prosiect mwyaf cymhleth oedd dyfeisio modd i roi llyw gyda *joystick* ar Bygi Golff. I ffermwr oedd wedi cael damwain i asgwrn ei gefn, sydd â'i fraich chwith yn ddiffwrwyth ac ychydig iawn o ddefnydd ganddo o'r fraich dde. Mae yn defnyddio cadair olwyn drydan cfo *joystick steering* o amgylch y tŷ. Cafwyd gafael ar *linear actuator* yn defnyddio 12 folt o drydan, *joystick* a dyfais drydan sydd yn gwneud i'r *actuator* ddilyn symudiadau'r *joystick* (*Servo control system*). Trwy osod braich ychwanegol wrth sedd y gyrrwr i gymryd y *joystick* a helpu i ddal ei fraich, wedyn gosod yr *actuator* yn sownd wrth y llyw a datgysylltu olwyn y



llyw, mae yn awr yn gallu gyrru'r bygi yn ddiogel.

Mae'r ffermwr yn awr yn gallu ymweld ag adeiladau'r fferm sydd tua 200 llath o'r tŷ ac yn gallu mynd o amgylch y caeau i weld y defaid. Yn ddiweddar mae yn cadw record pryd mae'r defaid yn cymharu (mae i bob dafad ei rhif) felly mae yn gwybod pryd mae'r ŵyn i ddwâd. Mae wedi gwella safon ei fywyd ac yn medru cario ymlaen â'r ffermio.

Mae'r gymdeithas leol yn cyfarfod yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, bob mis. Rydym yn cael llawer o bleser yn ymgymeryd â'r gwaith ac mae'n cadw'r meddwl i fynd wedi ymddeol a byddwn yn mwynhau cwmnïaeth aelodau eraill o'r panel. Byddwn yn cael trafodaeth ar bob prosiect ac mae'n ddefnyddiol iawn trafod gyda'r therapyddion, ac yn enwedig â'r person sydd angen cymorth.

Os oes cynrychiolwyr mudiadau yn yr ardal sydd yn ymwneud â phobol ac anabledd, ac yn meddwl y buasai panel lleol REMAP yn gallu eu cynorthwyo, cysylltwch â'r Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd.

Hefyd oes oes unrhyw un â diddordeb i ymgymryd â'r math yma o waith ac yn mwynhau gwaith llaw mewn metel neu bren, cysylltied â'r Cadeirydd, Eryl Roberts, Llanrug (01286 675384) neu'r Ysgrifennydd, Eifion Hughes, Moclfré (01248 410474).

Mae'r gwaith yn ddi-gost i'r person sydd ag anabledd. Mae'r panel yn ceisio hel arian i dalu cost y defnyddiau ond mae'r gwaith ei hun yn wirfoddol.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

YSGOL DOLBADARN



Yn dilyn y Gwasanaeth Diolchgarwch aeth Gareth Pritchard a Gwenan Owen, dau o'r disgyblion hynaf, â'r ffrwythau a dderbyniwyd i drigolion Plas Penwaith a Phlas Garnedd. Roedd y trigolion yn falch iawn o'u cael ac o dderbyn dymuniadau gorau'r disgyblion.

Penderfynnodd Cyngor Yr Ysgol i roi y casgliad, oedd yn £130, tuag at raglen imiwneiddio rhag afiechydon marwol yn y trydydd byd.

Yn ddiweddar bu disgyblion Blwyddyn 6 yn hel at ei gilydd wahanol dystiolaeth i'w rhoi mewn cist fydd yn cael ei chladdu yn llawr Hafod Eryri - yr adeilad newydd ar ben yr Wyddfa. Y bwriad yw agor y gyst ymhen 50 mlynedd i weld beth oedd plant Llanberis wedi ei ddewis i gyfleu bywyd yn y pentref heddiw. Beth fydddech chi wedi ei roi ynddi tybed?



Bu disgyblion yr Adran Iau yn casglu mes o gwmpas y pentref ar gyfer y Comisiwn Coedwigaeth. Bydd y Comisiwn yn plannu'r mes yn eu meithrinfa goed ar gyrion Caer. Diolch i'r rhieni ddaeth i'n helpu. Cafwyd prynhawn difyr iawn.

Yn y llun mae rhai o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn edmygu eu cynhaeaf.



Ydych chi wedi sylwi bod yna fwy nag arfer o ddynion efo gwalltiau gwyn yn Llanberis yn ddiweddar? Nid wedi heneiddio mae nhw, ond wedi bod yn codi arian at Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Pendalar. Yn y llun mae'r hogia dewr a'r merched fu'n eu gweddnewid un noson yn ddiweddar yn y Prince of Wales. Diolch i bawb gyfranodd at lwyddiant y sialens.

DYMUNA Mrs Jane Jones, Peris View, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu a ffrindiau y Nadolig hwn.

DYMUNA Carrie Hughes, 5 Ffordd Padarn, sydd tros y Nadolig yng Nghartref Preswyl Plas Garnedd, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion.

DIWRNOD O SIOPA YN WARRINGTON. Bydd bws yn mynd am ddiwrnod o siopa i Warrington. Gadael Llanberis am 8.00 y bore ar ddydd Iau, 3 Ionawr 2008.

Dewch yn llun i'r Sales. Enwau i Mattie (871 562) neu i Delyth (870 738).

HOFFAI Moreen, Plas Tirion, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon cardiau nac anrhegion eleni.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS Cymerodd y Côr, gyda llu o grwpiau / bandiau / unigolion a deuawdau, ran mewn cyngerdd yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen, ar 16 Tachwedd.

Amcan y noson oedd codi arian at Ymgyrch 'Efe'.

LLEISIAU LLIWEDD. Daeth tymor y Côr i ben gyda pharti hwyliog yng Ngwesty'r Goat, Beddgelert, ar 8 Rhagfyr, lle bu'r aelodau yn diddanu'r ymwelwyr drwy gydol y tymor, yn ogystal â pherfformio yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

Cynhaliwyd cyngerdd, o dan arweiniad Mr Owie J. Williams, yng Nghapel y Borth, Porthmadog, ar 22 Hydref ac yng Nghapel Salem, Porthmadog, ar 15 Tachwedd.

Bu'r Côr yn cynnal nosweithiau Carolau ym Mhlas Gwilym, Pen-y-groes, a Phlas Pen Gwaith, Llanberis, yn ystod y mis yma. Gobeithir cynnal noson debyg ym Mhlas Garnedd ar 16 Rhagfyr.

Dymunwn, fel Côr, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

O.N. Os oes angen arweinydd ar unrhyw gôr newydd yn yr ardal, mae si ar led fod un person wedi llwyddo yn yr *audition* yng Ngwesty'r Goat, Beddgelert, ac yn barod i gynnig ei gwasanaeth yn ddiymdroi.

Cysylltwch â (01286) 871928.



CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon.
Ffôn: (01286) 872275

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion at Mrs Peggy Rowlands, 3 Maes Gerddi, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

CYFARCHION Y TYMOR. Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref a'r rhai sydd mewn cartrefi henoed.

Diolch i bawb am ofalu am ddod â newyddion i'r Eco drwy gydol y flwyddyn.

Nadolig Llawen
a diolch am eich
cefnogaeth
oddi wrth

Alwyn a Sarah Penisarwaun Ffôn 870605

- Rithoedd Gelyn, Goed Nadolig a 'Crem Pots' a Rithoedd Drws
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silê
- Danfon blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau Siarad/
Talking Pages 118 247
- Hefyd, Bouquets Nadoligaidd



RHODD O'R GALON YW BLODAU

Y BWTHYN TÊ
pen y ceunant isaf
LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



Nadolig Llawen
i bawb

PEN Y CEUNANT ISAF.
BWTHYN A ADEILADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 1890s. GAWRUF: CEWYCH GROESO
ARBENNIG YMA, YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH OROS LLWYB PADARN A
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL
Oriol arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED

Ffair Nadolig. Dymunir diolch i bawb a gefnogodd y ffair mewn unrhyw fodd ar 5 Rhagfyr. Diolch arbennig i Siôn Corn am alw i mewn i weld y plant.

Sioe Nadolig - 13 Rhagfyr.

Oherwydd gwaeledd ymysg nifer o blant yr ysgol, cynhaliwyd y sioe 'Hon yw ei stori Ef' bawn lau a nos lau yn hytrach na dydd Mercher. Diolch i bawb am y gefnogaeth gref.

Cinio Nadolig. Diolchir i Anti Carolyn a staff y gegin am baratoi Cinio Nadolig ardderchog i'r plant a'r staff.

PÊL BONWS LOTERI. Enillydd mis Tachwedd oedd Mrs Margaret Williams, Carrog: rhif 38. Llongyfarchiadau!

CINIO NADOLIG Y PENSIYNWYR. Dymunir diolch o galon i bawb a fu'n brysur yn trefnu'r gweithgareddau i godi arian yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau Cinio Nadolig a thrip gwerth chweil ar Sadwrn, 8 Rhagfyr.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryn Tirion, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei harhosiad yn Ysbytai Gwynedd ac Eryri.

GWELLHAD. Anfonir y cofion anwylaf at bawb yn y pentref sy'n sâl, gan obeithio y byddwch yn well i ddathlu Gŵyl y Geni.

CARTREF NEWYDD. Croeso cynnes yn ôl i'r pentref i Anna-Marie, Tudur, Magi a Moi, sydd wedi ymgartrefu yn eu cartref newydd sbon, Gwern Helen. Pob dymuniad da i chwi fel teulu.

YSGOL SUL BOSRA. Bu gwerthiant y Cardiau Nadolig a wnaethpwyd gan y plant, yn llwyddiannus dros ben a diolchir i bawb a gefnogodd y weithgaredd hon er budd Apêl Atgyweirio'r Capel.

Bawn Sul, 16 Rhagfyr, cynhaliwyd Sul y Teulu am 2.00 o'r gloch. Diolchir eto eleni am ffyddlondeb y plant ac am eu gwaith graenus drwy'r flwyddyn. 'Carol Nadolig', Charles Dickens oedd cyflwyniad y plant a'r athrawon, gyda'r aelodau ieuengaf yn cloi hefo stori'r Geni. I ddiolch iddynt fe alwodd Siôn Corn heibio gan eu sicrhau y bydd yn dod yn fuan nos Lun, 24

Rhagfyr, i Benisarwaun. Diolchir i bawb am eu cefnogaeth. Gwnaed casgliad tuag at Apêl y Capel.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 13 Ionawr, am 10.00 o'r gloch.

Nadolig llawn hwyl i chwi, blant. **PWYLLGOR NEUADD.** Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr, a'r enillwyr oedd: Elen Lewis, Penpwllcoch; Gwyneth Owen, Minffordd; Marina Jones, Tyddyn Arthur.

Dymunir diolch i holl aelodau'r Clwb Cant am y gefnogaeth drwy 2007. Adnewyddir yr aelodaeth ym mis Ionawr ac mae croeso cynnes i aelodau newydd - 50c y mis neu £6 y flwyddyn - a gellir talu drwy Archeb Banc. Mae ffurflenni ar gael gan y Trysorydd: Dafydd Williams, Brynrefail, neu unrhyw aelod o'r Pwyllgor.

NOSON WASAEL. Nos Fercher, 19 Rhagfyr, cynhelir Noson Wasael, gydag aelodau o Fand Arian Deiniolen, John Eifion a'r teulu, plant yr Ysgol Gynradd ac eraill. Cenir yr hen Garolau traddodiadol ynghyd â blasu pwnsh a mins pei.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr amrywiol weithgareddau yn ystod 1007. Diolch o galon.

Cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Pwyllgor Neuadd nos Lun, 28 Ionawr 2008, am 7.00 yr hwyr yn y Neuadd Gymuned.

CYDYMDEIMLIR yn ddwys â Mrs Blodwen Pritchard, 10 Llys y Gwynt, ar golli ei chwaer o Langeftni yn ddiweddar. Ein cydymdeimlad llwyrfa â chi.

EGLWYS SANTES HELEN. Prawn Sul, 23 Rhagfyr, am 3.30 cynhelir gwasanaeth Naw Llith a Charol.

Noswyl Nadolig, 24 Rhagfyr, am 7.00 yr hwyr, gwasanaethir y Cymun Bendigaid gan y Parchedig Ganon Tegid Roberts. Croeso cynnes i bawb ddod i groesawu Dydd Nadolig gyda'i gilydd.

I CHWI OLL. Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Llawn Bendithion i bawb yn y pentref.

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

CWIS CHWARAEON Y NADOLIG

1. Pwy oedd y chwaraewyr cyntaf i sgorio cais a gôl i Gymru yn Stadiwm y Mileniwm?
2. Pa dimau yng Nghynghrair Lloegr y mae Eifion Williams wedi eu cynrychioli?
3. Ym mha flwyddyn yr enillodd Steve Redgrave y cyntaf o'i bum medal aur Olympaidd?
4. Ger pa stadiwm rygbi enwog y mae maes Stade Francais?
5. Ble mae, a beth sy'n arbennig am faes newydd y Seintiau Newydd?
6. Ym mha ddinas mae cae criced y WACA. Beth yw arwyddocad y llythrennau?
7. Pwy oedd yn cystadlu am Fowlen Bowring?
8. Pa ddwy dref sydd â thimau rygbi a phêl-droed ym mhrif adrannau Cymru?
9. Pwy oedd y tri Cymro olaf i sgorio goliau cynghrair i Lerpwl?
10. Yn erbyn pa wlad y sgoriodd y diweddar Ray Gravell ei unig gais i Gymru?
11. Ym mha drefi mae/roedd y meysydd pêl-droed yma? Cae Top, Cae Mwd, Cae Clyd
12. Pa un o'r timau rhanbarthol pêl-droed Gwyddelig a enwir 'The Kingdom'?
13. Pa Gymro oedd yn sylwebu ar rownd derfynol Cwpan y Byd 1966 i gwmni ITV?
14. Sawl gwaith y mae Roger Federer wedi ennill pencampwriaeth senglau Wimbledon?
15. Ym mha ddinas mae maes Parc Thormond?
16. Ym mha ras Grand Prix Fformiwlâ 1 mae'r twnel enwog?
17. Beth yw ystyr y T.T. yng nghyswllt y rasmus moto-beic enwog?
18. Os oedd llechid yn Celts, beth oedd Carmel?

ATEBION

1. Mark Taylor, Ryan Giggs
2. Torquay, Hartlepool, Wrexham
3. 1984
4. Parc du Princes
5. Croesoswallt, cae pob
6. Perth, Western Australia
7. Timau rygbi Prifysgolion Rhydychen / Caergrawnt
8. Llanelli, Castell Nedd
9. Bellamy, Rush, Dean
10. Yr Alban
11. Caernarfon, Caergybi, Blaenau Ffestiniog
12. Kerry
13. Hugh Johns
14. 5
15. Limerick
16. Monaco
17. Tourist Trophy
18. Locals



R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarlflenwyr yr Eco

Gorsaf Betrol Beran Deiniolen.



Golchi a ll'nau Ccir
Carwash/Vac

Ar agor 7yb - 9yh bob diwrnod
Petrol, Diesel, Nwy Calor a Glo
Loteri, Papurau Newydd
Off Licence, Bake'n Bite
Brechdanau a Diodydd Poeth

Costcutter

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



01286 871521

NADOLIG LLAWEN

01286 672333



GWYLIAU SEREN ARIAN

Silver Star
HOLIDAYS

Dathliad Penblwydd
Seren Arian yn 90 oed

www.silverstarholidays.com

Mai 2008 24 - 26 (3 Diwrnod)
Mai 2008 25 - 26 (2 Ddiwrnod)

1 neu 2 noson gwely a brecwast gyda
swper gala ac adloniant

4* Hilton Metropole,
Birmingham

Ceir adloniant gan
Tudur Owen y comediwr,
Dafydd Iwan a'i fand,
ac band teyrnged 'Abba'

2 Ddiwrnod £99
3 Diwrnod £149

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn
cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad neu
ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu e-bost: **williamsgw@parliament.uk**

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN

IMPORTS GERMAN SWEDISH

Y Dewis
arall Dibynadwy
i Wasanaeth
Y Prif Ddeliwr.
Beth bynnag
rydych yn ei yrru,
o Audi i VW...

Ceir Benthg
AM DDIM

Cibyn Ind. Est., Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

AMW Car Service

VOLVO MERCEDES SAAB

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: **(01248) 714043**

neu **Caernarfon**

Ffôn: **(01286) 674520**

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth barwb yn

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

27 Stryd y Bont, Caernarfon
(01286) 672727

a hefyd ein swyddfa newydd
8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 355055

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**

Ffôn: **01286 870462**

Symudol: **07962 712368**

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

NJ



Gwasanaeth Cwnsela

Nerys John BSc. Dip. Couns.MBACP

Sesiynau yng Nghaernarfon gyda chwnselydd cymwysiedig. Cyfle i ddod o
hyd i ffordd eich hun i ddelio gyda gwrthdymfa, gwrthdaro, newidiadau
anodd neu phrofiadau anodd. Fe wneir hyn mewn sefyllfa nad yw yn
feirniadol gan ddilyn canllawiau proffesiynol y BACP.

Ffoniwch 07796376158

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda



cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 106851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnyddig drwy Warant 3420271

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi
preifat - nosweithiau allan, partïon, triapiau
ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS
I'W DDATHLU'N
DDIOGEL

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

CABAN. Carai staff Caban ddiolch am bob cefnogaeth gan gwsmeriaid yn ystod 2007. Mae'r ganolfan yn gyffredinol wedi bod yn fan brysur gydol y flwyddyn ac un o'r uchafbwyntiau oedd i Caban fod yn gynwysiedig yn llyfryn *Canllaw i Fwyd Da 2008* - yr unig fwyty lleol a awgrymwyd yn y rhan hon o Wynedd.

Mae nifer o gyfarfodydd wedi bod yn boblogaidd yn ystod tymor ysgol fel y Drymio Affricanaidd bob nos Lun, Clwb Ffidil Eryri ar nos Fawrth, Clwb Ffilm yn fisol ar nos Fercher a Chlwb Darllen gyda phryd o fwyd seiliedig ar y llyfr dan drafodaeth ar y nos lau olaf o bob mis. Yn y flwyddyn newydd, ar bnawn Llun, bydd cyfle i famau a babanod ddod at ei gilydd.

Am fwy o wybodaeth neu os am logi ystafell at unrhyw achlysur, ffoniwch 01286 685500. CROESO i Terry Jones, Cae Coch gynt, a'r teulu sydd wedi ymgartrefu erbyn hyn yn 12 Trem Eilian. Hefyd symudodd Ethel Williams o Ddinorwig i fyw yn 3 Ffrwd Madog.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. OEDFA'R AELODAU. Trefnwyd oedfa ar y Sul cyntaf o Adfent dan nawdd yr aelodau yn absenoldeb ein cennad, y Parchg H. Gwynfa Roberts, Llanwnda. Roeddem fel cynulleidfa yn gofidio nad yw ei ieuchyd wedi bod yn dda yn ystod y flwyddyn bresennol ac yn anfon ein cofion cynhesaf ato.

Arweiniwyd mewn myfyrdod ar

ddechrau'r gwasanaeth gan Gwyn Hefin Jones. Yn dilyn cymerwyd rhan gan Jennie A. Roberts, Dafydd G. Ellis, Ifanwy Jones a Lowri Roberts Williams, pob un yn ei dro yn cyflwyno myfyrdod a gweddi seiliedig ar bedair carol i'n cyflwyno i'r Adfent, sef 'Veni Emaniwel', 'Wele cawsom y Meseia', O! deuoch ffyddloniaid' ac un o garolau y Ficer Pritchard, 'Rhown foliant o'r mwyaf i Dduw y Goruchaf'. Ymunodd y gynulleidfa yn y moliant ynghyd â gosodiadau o Weddi'r Arglwydd a fabwysiedir yn eu tro yn oedfaon y dyfodol. Trefnwyd y gwasanaeth gan Gwyn Hefin Jones ac ef a ddaeth â'r oedfa i ben gydag un o weddiâu'r Cristnogion cynnar. Diolchodd i bawb hefyd am eu cyfraniad i oedfa gartrefol a bendithiol iawn.

Yn yr oedfa dan arweiniad y Parch Gwynfor Williams bnawn Sul, 9 Rhagfyr, cydymdeimlwyd yn ddwys â Mr Emyr Williams yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, Mr Ifan Hefin Williams, Caernarfon. Cyfeiriwyd ato fel cyfaill, cymwynaswr a Christion ac un a fu yn barod ei wasanaeth i ni y ma fel eglwys ym Mrynrefail.

Anfonir cofion yr eglwys at bawb yn yr ardal na fu yn dda eu hiechyd yn ddiweddar, gyda phob dymuniad da dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

OEDFAON RHAGFYR. Cynhelir oedfa i ddathlu'r Nadolig ar fore Sul, 23ain. Cymerir rhan gan

aelodau ac ieuenctid yr eglwys. Bydd elw y lluniaeth a ddarperir ar y terfyn yn mynd at gynllun 'Efe', sef yr ymdrech i sicrhau gweithiwr ieuenctid Cristnogol i fro'r Eco. Gwerthfawrogir unrhyw rodd gan aelodau yr eglwys na all fod yn bresennol yn yr oedfa tuag at y cynllun arbennig hwn.

Ar Ragfyr 30ain, bydd oedfa am 5.30 dan arweiniad y Parchg. Reuben Roberts, Bontnewydd.

OEDFAON IONAWR 2008.

- 6: 2.00 Parchg Gwenda Richards, Caernarfon
- 13: 5.30 Parchg. Trefor Jones, Caernarfon
- 20: 5.30 Mr Richard Lloyd Jones, Bethel
- 27: 5.30 Prachg. Eric Jones, Bangor. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Dyddiadur Evan Jones, Tŷ'r Mawn

Nid oes dim yn y dyddiadur am fis Rhagfyr 1907, felly fe af i'r flwyddyn 1920. Dechrau oes y Charleston ac hefyd degawd y tlodi wedi i'r bechgyn dewr ddod adref a dim gwaith i'w gael.

29 Ionawr 1920: Claddu Owen Jones, Llainwen.

4 Chwefror: Marw Mary Kate Evans, Plas Coch, ac hefyd marw Solomon Davies, Mur Mawr.

21 Chwefror: Dyfod â chorff mab William Hughes, Tyddyn Charles, dros y pas i'w gladdu ar unwaith o'r clefyd.

26 Chwefror: Claddu Gwyn Jones, Llwyneclyn gynt, a fu farw yn Hospital Caernarfon.

29 Chwefror: William Hughes, Tyddyn Charles, yn marw.

2 Mawrth: Priodi William Ellis Williams, Fron Goch.

18 Mawrth: Priodi Idris Roberts.

30 Mawrth: Marw Ellen Griffiths, Maenllwyd Isaf, ac hefyd priodi William R. Jones, Rallt Goch.

28 Ebrill: Claddu Miss Jones, Tyddyn Charles.

6 Mai: Marw Robert Parry, Ceunant Street.

8 Mehefin: Priodi Jeannie Williams, York Terrace.

11 Mehefin: Marw Roberts, Dinorwic House, Llanberis.

5 Gorffennaf: Marw John Roberts, Talafon.

10 Gorffennaf: Priodi William Jones, Talafon.

21 Gorffennaf: Claddu William Owen, Llainwen.

24 Gorffennaf: Claddu Griffith Hughes, Ty'n Maes, Cwm y glo.

3 Awst: Claddu Jeannie Jones.

6 Awst: Marw William Thomas, llwythwr, Cwm y glo.

3 Tachwedd: Owen Hughes, Rallt Goch, yn priodi.

1 Rhagfyr: Marw Ellen Ellis, Fron Goch, yn Dinbach.

10 Rhagfyr: Priodi Hugh Jones, Maenllwyd Uchaf.

11 Rhagfyr: Priodi Mary Thomas, Ceunant Street.

18 Rhagfyr: Marw gwraig William Hughes, Water Street, Llanberis.

19 Rhagfyr: Marw Thomas Hughes, gof, Water Street, Llanberis.

29 Rhagfyr: Priodi Dora Williams, Ceunant Street.

R. ELWYN GRIFFITH

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Noson cyn y Nadolig
Noson ola'r flwyddyn

Gwasanaeth Llun arferol tan 5pm yn Llanberis

Manylion llawn ein hamserlenni ar gael ar ein gwefan:

www.kmpbus.com

Dydd Nadolig a Gŵyl San Steffan – Dim bysus

Dydd Calan, 1 Ionawr 2008 – Dim bysus

K.M.P.
(LLANBERIS) LTD

Y GLYN, LLANBERIS, GWYNEDD LL55 4HN

01286 870880

www.kmpbus.com



Ar Ben Arall y Lein

Wel dyma ni wedi cyrraedd diwedd tymor a hefyd diwedd blwyddyn arall ac, i rhoi caead ar bopeth, byddaf flwyddyn yn hŷn cyn bo hir. Mae'n bosib gwneud rhywbeth am y pysgota ond dim am ein oedran, gwaetha'r modd!

Sut mae pethau wedi bod dros y deuddeg mis a fu? Cyn belled ac y mae pysgota eog yn y cwestiwn mae'r dyfodol yn edrych yn llawer mwy calonogol. Un o'r pethau pwysicaf sy'n dylwanadu ar hyn yw fod diwedd wedi bod ar y rhwydo di-baid oddi ar arfordir gorllewinol Iwerddon. Dyma ddull o bysgota a oedd yn dal dros 500,000 o eogiaid yn ôl cofnodion swyddogol, ond y gwir yw, wrth gwrs, fod llawer mwy na hynny yn cael eu glanio, ond nid yn yr Iwerddon ond ym mhorthladdoedd gogledd Ffrainc. Does dim dwywaith fod rhaid diolch i'r Undeb Ewropeaidd am roi pwysau ar lywodraeth y Weriniaeth i roi diwedd ar yr ymarfer gwarthus yma.

Ydi hyn wedi effeithio arnom ni yma? Yr ateb yw ydi, ac yn y ffordd mwyaf positif. Mae'n wir dweud nad oes cyn gymaint o eogiaid wedi bod yn ein dyfroedd ers bron i ugain mlynedd. Mae wedi bod yn bleser mynd i edrych yn y pwll sydd ym mhen y twnnel yn Nant Peris a gweld pysgod enfawr yno. Mae'r llecyn yma yn poblogaidd iawn ac yn rhoi hysbys da i'r fro am be sydd ar gael yn ein hafonydd a llynnoedd.

Ac nid yn unig ar y Seiont y mae pethau'n edrych ar i fyny. Eleni mae adroddiadau wedi dod i law fod y Gwryfai yn dechrau dangos gwelliant ar ôl blynyddoedd maith o anobaith. Un peth diddorol iawn oedd pysgotwyr yn gweld heidiau o bysgod, gyda chynffon tebyg i facrell, yn rhedeg yr afon. Be ydynt tybed? Ar ôl cryn ddyfalu a chladdu pennau mewn llyfrau, y casgliad yw mai unai *Allis* neu *Twaite Shad* yw'r creaduriad. Peth anghyffredin iawn, gan nad oes cofnod erioed o bysgod o'r fath yn unrhyw un o'n afonydd - hynny ydi, os nad oes rhywun ohonoch yn gwybod fel arall.

Yn ystod y flwyddyn rydym,

fel Cymdeithasau Cymru yn gyffredinol, wedi wynebu her gan Undeb Canwio Cymru sy'n mynnu mynediad agored i ddefnyddio ein dyfroedd, a hynny yn gwbwl ddirwystr pob dydd o'r flwyddyn, a hyn yn hollol ddi-dâl. Os buasai'r Cynulliad Cenedlaethol yn dedfrydu ar hyn byddai'n drychinebus i'r holl gymdeithasau! Pwy yn eu iawn bwyll fuasai'n fodlon talu aelodaeth i bysgota gyda'r holl geufadwyr ym mhob man. Buasai cymdeithas ar ôl cymdeithas yn rhoi'r ffidil yn y to, a'r aelodau yn morio i'r Iwerddon neu dros y ffin i Loegr am eu sgota, tra bod criw y canws yn dod dros y ffin y ffordd arall i ddefnyddio ein hadnoddau ni am ddim.

Credwch neu beidio rydym wedi bod yn ceisio dod i gytundeb synhwyrol gyda'r criw yma ers 1986! Y rhai sy'n gwrthod cydweithio gyda'n cynigion yw Cyngor Chwaraeon Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd - dau gorff sydd yn awr yn dibynnu ar eu bodolaeth gan arian y Cynulliad. Rydym oll yn meddwl be mewn difri sy'n mynd ymlaen!

Mae aflonyddwch mawr yn y cymunedau pysgota oherwydd hyn ond mae'r gwleidyddion i'w gweld yn benderfynol o ddinistrio be sydd wedi bodoli yma er budd ein pobl leol ers bron i 100 mlynedd. Mae un aelod o'r Rhyddfrydwyr sy'n eistedd yn Nghaerdydd wedi dweud yn gyhoeddus bod eisau mynediad dirwystr i holl ddyfroedd Cymru - dyma'r her rydym yn ei gwynebu! Er fod y Gweinidog Cefn Gwlad, Jane Davidson, wedi dweud na fydd dim newid yn y sefyllfa am y pedair blynedd nesaf.

Cymaint yw ein pryder fel bod cyfarfod wedi ei drefnu gan Genweirwyr Gwynedd ym Mhorthmadog ddiwedd Ionawr gyda Aelodau Cynulliad y sir i drafod y sefyllfa ddifrifol yma.

Ar bwynt mwy calonogol, a ninnau ar drothwy Gŵyl y Geni, hoffwn ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd arbennig i pawb.

HUW PRICE HUGHES

Gwneud y mwyaf o'ch Archifdy lleol

Gyda mwy a mwy o ddiddordeb gan bobl o bob oed mewn olrhain hanes teulu, mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd wedi trefnu cyfres o sesiynau a fydd yn rhoi blas i unigolion am yr hyn sydd ar gael yn eu harchifdy lleol, ac yn rhoi eu rhoi ar ben ffordd am sut i gychwyn olrhain eu hachau.

Mae dau gwrs gwahanol wedi eu trefnu dros y misoedd nesaf. Y cyntaf o'r rhain yw'r Cwrs Blasu sydd yn rhoi cyflwyniad byr i rai sydd ddim yn gyfarwydd â defnyddio'r archifdy yn rheolaidd, ac yn dangos yr holl adnoddau sydd ar gael iddynt yn yr archifdy.

Bydd y cwrs Olrhain Hanes Teulu yna'n rhoi canllawiau ar sut i fynd ati i gychwyn olrhain hanes eich teulu. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i chi edrych ar wahanol fathau o ffynonellau a thystiolaeth sydd ar gael, a bydd cyfle i chi holi yr archifyddion am agweddau gwahanol o'r gwaith.

Dywedodd y Cynghorydd Roy Owen, Arweinydd Portffolio Dysgu Gydol Oes Cyngor Gwynedd:

'Bydd y cyrsiau hyn yn gyfle gwyb i unrhyw un sydd gyda diddordeb mewn olrhain eu hachau wneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau arbennig sydd ar gael iddynt yn archifdai Gwynedd.

'Mae llu o gofnodion o bwysigrwydd hanesyddol, gan gynnwys hen gofnodion eglwys a chapel trwy'r sir yn cael eu cadw yn archifdai Gwynedd. Bydd y sesiynau hyn yn rhoi'r cymorth i bobl ddod i wybod mwy am yr hyn sydd ar gael iddynt yn archifdai'r sir yng Nghaernarfon a Dolgellau, ac rwy'n gobeithio y bydd nifer yn manteisio ar yr adnoddau yn ystod y cyrsiau ac yn y dyfodol.

Cynhelir y cyrsiau ar y dyddiadau canlynol:

Dydd Sadwrn, 1 Rhagfyr 2007:
Cwrs Hanes Teulu (Cwrs

Cymraeg). Lleoliad: Archifdy Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon. Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10:30.

Dydd Sadwrn, 12 Ionawr 2008:
Sesiwn Blasu (Cwrs Cymraeg). Lleoliad: Archifdy Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon. Amser: 10:00am - 12:00pm.

Dydd Sadwrn, 12 Ionawr 2008:
Introductory Course (Cwrs Saesneg). Lleoliad: Archifdy Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon. Amser: 2.00-4.00.

Dydd Sadwrn, 19 Ionawr 2008:
Family History Course (Cwrs Saesneg). Lleoliad: Archifdy Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon. Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10:30.

Dydd Mercher, 30 Ionawr 2008:
Family History Course (Cwrs Saesneg). Lleoliad: Archifdy Meirionnydd, Ffordd y Bala, Dolgellau. Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10:30.

Dydd Sadwrn, 16 Chwefror 2008:
Cwrs Hanes Teulu (Cwrs Cymraeg). Lleoliad: Archifdy Meirionnydd, Ffordd y Bala, Dolgellau. Amser: Cwrs diwrnod yn cychwyn am 10:30.

Dydd Mercher, 27 Chwefror 2008:
Sesiwn Blasu (Cwrs Cymraeg). Lleoliad: Archifdy Meirionnydd, Ffordd y Bala, Dolgellau. Amser: 2.00-4.00.

Dydd Mercher, 12 Mawrth 2008:
Introductory Course (Cwrs Saesneg). Archifdy Meirionnydd, Ffordd y Bala, Dolgellau. Amser: 2.00-4.00.

Mae'n angenrheidiol archebu eich lle ar y cyrsiau uchod o flaen llaw. Cysylltwch â'ch Archifdy lleol:

Archifdy Caernarfon, Doc Fictoria, Caernarfon LL55 1SH
(01286) 679 095

archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk

Archifdy Meirionnydd, Ffordd y Bala, Dolgellau, LL40 2YF
(01341) 424 681

archifau.dolgellau@gwynedd.gov.uk

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Dylan Griffith

Trefnwr Ângladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Yn Gwasanaethu'r holl ardal yn cynnwys-
PENISARWAUN • DEINIOLLEN • LLANRUG A LLANBERIS

Ffonitwch Dylan (Llys)

ar 871833

Symudot-07778127394

Gwasanaeth Teimladwy
Urddasol a Phersonol
24 awr y dydd
Capel Gorfhwys Preifet

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrrhaeddwr Mewn Stil - Mewn Cerbyd Rolls Royce

AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

CHWARAEON

HIR POB AROS

Er fy mod yn dilyn y rhan fwyaf o gampau, nid oedd bocsio ymysg y ceffylau blaen. Mae hyn yn rhyfedd gan fy mod yn un a fagwyd yn ystod oes aur bocsio yng Nghymru, cyfnod Dai Dower, Brian Nancurvis, Joe Erskine, Howard Winstone a Colin Jones. Tra'n dysgu yn Nhonyrefail roedd Tyrone Williams - a ddaeth yn joci - yn ddisgybl. Ei dad oedd y pencampwr unigryw Lennie 'the Lion' Williams. Trwy'r cysylltiad yma daethom i sylwi fod y bociwr yn cael lle blaenllaw yn oriel anfarwolion y Cymoedd.

Eleni, amlygwyd y cysylltiad yma i'r eithaf. Er y diffyg o ddangos y gornestau ar y BBC gwelsom Joe Calzaghe yn cipio'r prif dlws am Bersonoliaeth Chwaraeon yng Nghymru a Phrydain. Am ddeng mlynedd bu'n bencampwr byd di-guro. Erbyn hyn mae'n dal pob gwregys Pencampwriaeth y Byd yn ei bwysau.

I goroni'r gamp, cafodd ei dad, Enzo, y tlws am yr hyfforddwr gorau. Y mae ei gamp cystal â gorchestion ei fab. Sefydlodd gampfa mewn hen gwt pren ar gyrion Trecelyn - hen ardal y glo a'r dur. Oddi yno bu'n meithrin ac arwain fflyd o ieuencid yr ardal ddifreintiedig yma. Erbyn heddiw, mae pedwar pencampwr byd yn gysylltiedig â'r stabl.

Yn fy marn i, roedd camp Enzo yn fwy addas gan ei fod yn 'bersonoliaeth'. Y mae gŵr felly yn gallu dylanwadu. Yr oedd ei gyfweiliad mor 'agos atoch', gyda chyfeiriadau cynnes at ei 'deulu o hogiau'. Mor aml, gwelwn y tlysau yn mynd i unigolion a gafodd un gêm fawr, neu un awr fawr - ac o fewn dim yn diflannu fel seren wib. Un â gweledigaeth oedd Enzo, ac un a gadwodd ei draed ar ddacar ei filltir sgwâr.

Yn yr un modd roedd diffuantrwydd a balchder henffasiwn Bobby Robson yn dal i yrru neges bositif ymysg y to ifanc a'u henillion mawr.

Efallai eleni, wrth rannu'r tlysau, fod y dilynwr teyrngar wedi mynegi ei farn. Y mae i'r dosbarth gweithiol o hyd ci lais.

PWY YW'R GORAU?

Muralitharan neu Warne? Gofynnwyd fy marn yn aml yn ddiweddar. Yn sicr, dyma ddau drocillwr sydd ar lefel uwch nag unrhyw drocillwr craill hyd yma. Dros un mil o wicedi yr un ar lefel prawf a gemau undydd rhyngwladol. Ond pwy oedd y gorau?

Yn fy marn i - Shane Warne. Y mae ganddo ganran uwch o lawer o wicedi yn erbyn y 'gwledydd mawr' - cafodd Mulli sawl wiced yn erbyn Bangladesh. Mae canran uchel o wicedi Mulli hefyd wedi dod ar wicedi ffafriol Sri Lanka. Gwan iawn yw ei record yn erbyn Awstralia, er enghraifft.

Y deyrnged fwyaf i Warne yw y dylanwad gafodd ar nifer o chwaraewyr ieuanc, a daeth y troellwr coes yn boblogaidd unwaith eto. A thra bod hanes i'r gêm fe gofir am yr ystadegyn am ei gêm brawf gyntaf - Gating b Warne - y belen anhygoel honno.

Ac a yw dull Mulli o fowlio yn gyfreithlon...?

PLESIO'N ARW

Soniais am ein timau mabwysiedig y mis diwethaf. Es i Langejni yn ddiweddar i wyllo'r gêm rygbi hiddisgwylidig yn erbyn Caernarfon.

Y peth cyntaf i'w nodi yw datblygiad y gêm. Mae'n fwy cyflym, yn fwy corfforol, a chydag agwedd bendant i ledur bêl. Mae diolch am hyn i'r rheol gyffredinol o gipio pwynt bonws am bedwar cais, neu golli o fewn saith pwynt.

Yn ail, mae safon yr hyfforddi wedi gwella - ac yn sicr hefyd ffitrwydd y chwaraewyr.

O ran hyfforddi, mae mwy o bwyslais ar amddiffyn nac ar ymosod.

I'r gic olaf, rhaid canmol disgyblaeth ac ymroddiad y ddau dîm. Ac am gic olaf! Gyda'r sgôr yn 9-7 i Langejni, ciciodd Kelvin Morris gic gosb ardderchog o'r ystlys, i gipio buddugoliaeth haeddiannol. Roedd hyn wrth fodd y llu o Gofis yn y dorf o 250.

Bu'n hen ddadl fod 'awdurdodau'r de' yn anwybyddu datblygiad y gêm yn y gogledd. Oherwydd ymroddiad ein clybiau, a'r polisi pendant o ddatblygu carfannau ieuencid, rydym yn haeddu sylw a chefnogaeth. Yn sicr, mwy nac y mae rhanbarth y Sgarlets yn ei roi ar hyn o bryd.

YMDDIHEURIAD

Yng nghyswllt y darlun o dîm snwccr Deiniolen yn y rhifyn diwethaf. Daeth y llun i law oddi wrth Jackie Lewis, yn wrciddiol o Ddeiniolen ond bellach yn byw yng Nghaernarfon. Ymddiheuraf am enwi y diweddar Jackie Davies.

CLWB PÊL-DROED BETHEL

Ffenestri Cymru, noddwr cit newydd tîm dan 15eg Bethel

Mae Clwb Pêl-droed Bethel unwaith eto wedi elwa ar garedigrwydd busnes lleol drwy dderbyn cit newydd sbon i un o dimau dan 15eg y bechgyn gan Ffenestri Cymru. Mae Meic Bullock, (ar y chwith yn y llun) perchennog Ffenestri Cymru yn edmygw'r o'r holl weithgaredd pêl-droed sy'n digwydd yn y clwb o dymor i dymor. Medd Meic,

'Doedd dim o'r cyfleoedd pêl-droed sy'n cael eu cynnig i blant heddiw pan oeddwn i'n blentyn, ac mae'r gweithgarwch

ar Gae Coed Bolyn bob bore Sadwrn yn werth ei weld. Mae Ffenestri Cymru yn falch o'r cyfle i gefnogi clwb sy'n rhoi cymaint o bleser i blant o wythnos i wythnos.'

Dywed rheolwr y tîm, Andrew Williams,

'Mae cael cit mor safonol i'r tîm yn ychwanegu at falchder yr hogia wrth gamu ar y cae. Rwy'n falch iawn o'r olwg broffesiynol sydd ar y tîm ac yn ddiolchgar dros ben am haelioni Ffenestri Cymru.'



Y rheolwr, Andrew Williams, a'r capten yn derbyn y cit newydd oddi wrth Mr Meic Bullock, Ffenestri Cymru.



Y tîm balch yn eu cit newydd.

ANGEN BRASSO?

Ar ddiwedd blwyddyn, Llanrug yw'n prif dîm pêl-droed lleol. Hwyl hefyd roes berfformiad y flwyddyn yn erbyn cewri Llanelli. (Rwy'n dal ddim yn gwybod pam na chafodd Dafydd Arfon y wobwr yng nghystadleuaeth Sgorgasm Radio Cymru!) A oes gobaith am ddyrchafiad?

Prinder gemau cynghrair yw problem Bethel a Llanberis. Mac Llanber yn dal i darannu yn Nhlws F.A. Cymru, a Bethel yn herio Treffynnon yng Nghwpan Barritt. Gobeithio na fydd y cwpanau yn llesteirio dechreuad da Bethel yn y gynghrair. Carfan fechan sydd

ganddynt, a nifer o gemau.

Ymladd eu ffordd i adran gyntaf Cynghrair Caernarfon fydd targed Waunfawr a Deiniolen.

Fel pob blwyddyn, diolch i bawb sy'n rhoi o'u hamser i gynnal y fflam yn y clybiau hyn.



NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA O'R 'ADRAN'
CHWARAEON